

CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 281 - 60c
Mawrth 2010

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanygybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Chwyldro addysg yn Llambled



Tudalen 15

Cadwyn arall o gyfrinachau



Tudalen 12

Canlyniadau Eisteddfod Gylch



Tudalen 16

Cipio Cadeiriau



Elliw Dafydd yn gyntaf ac yn drydydd yng nghystadlaeth y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Gyfun Llambled gydag Angharad Evans yn ail; Sioned Davies yn ennill Cadair Eisteddfod Rhyng-golegol Cymru a Guto Gwilym yn ennill Cadair Eisteddfod Ysgol Dyffryn Teifi.



Eisteddfod yr Ysgol Gyfun



Del Evans a enillodd y Cwpan am y darn gorau o waith Cymraeg blwyddyn 8.



Llion Thomas, Dulas yn ennill y cwpan am y darn gorau o waith Cymraeg Bl. 9.



Lowri Elen Jones, Creuddyn yn ennill yr Unawd Merched Ieuaf a'r Llefaru Ieuaf.



Aled Wyn Thomas, Creuddyn yn ennill Cwpan Unawd y Bechgyn Hynaf.



Joshua Yardey, Dulas yn ennill cwpan Cerddor Gorau'r Eisteddfod.



Beca Creamer a enillodd Cwpan Barddoniaeth blwyddyn 10.



Luned Medi Jones a enillodd y Tlws Cymraeg Iau.



Enillwyd y ddeuawd yn ogystal a chystadlaethau eraill gan Aron ac Elliw Dafydd, Teifi.

Unwaith eto eleni, amlygwyd talentau disglair disgyblion Ysgol Gyfun Llanbed yn yr Eisteddfod flynyddol a gynhaliwyd ar y 9fed a'r 10fed o Chwefror.

Gwelwyd cystadlu brwd rhwng y tri thŷ sef Creuddyn, Dulas a Teifi. Y beirniaid eleni oedd Gwennan Jones (Cerdd), Gwennan Evans (Llefaru a'r Gadair), gyda Catrin Stevens yn beirniadu cystadlaethau y Goron.

Yn ystod y diwrnod a hanner o gystadlu, cyfeiriodd y tair ohonynt at safon eithriadol o uchel y cystadlaethau llwyfan a'r cynnyrch a ddaeth i law yng nghystadlaethau'r Goron a'r Gadair.

Bwrodd nifer o feirdd ati eleni i ymgeisio am y Gadair ar y testun 'Hud'. Enillwyd y Gadair gan Elliw Dafydd o dŷ Teifi. Cipiodd Angharad Evans o Greuddyn yr ail safle ac Elliw Dafydd y drydedd wobwr.

Roedd y gadair yn rhoddedig gan John a Menna Williams, Rhosybedw, Ffaldybrenin, er cof am eu hwyres Siân Watkins.

Shadows oedd thema cystadlaethau y Goron. Seb Lee o dŷ Creuddyn oedd yn fuddugol, tra dyfarnwyd Althaea Sandover o Greuddyn yn ail a Sophie Hannaway o Dulas yn drydydd.

Braf oedd gweld capteiniaid y tri thŷ sef, Ffion Gaunt a Sam Garside (Creuddyn); Carys Thomas a Brynmor Jones (Dulas); Elliw Dafydd a Ben Lake (Teifi) ynghyd â'u his-gapteiniaid a chefnogwyr, yn cydweithio'n arbennig o dda yn ystod cyfnod y paratoi, a'r Eisteddfod ei hun, er mwyn sicrhau eitemau safonol ac amrywiol.

Ar ddiwedd y cystadlu, Teifi ddaeth i'r brig gyda 567 o bwyntiau, Creuddyn yn ail gyda 513 a Dulas yn drydydd gyda 415 o bwyntiau. Teifi a enillodd y cystadlaethau gwaith cartref hefyd.

Nos Iau, 11eg o Chwefror, cynhaliwyd cyngerdd 'Pigion yr Ŵyl', gyda neuadd lawn

yn tystio i wled amrywiol a difyr o eitemau, megis yr unawdau, deuawdau, meimiau, sgetsys, darnau offerynnol, grŵp pop a'r dawnsio disgo – rhywbeth at ddant pawb! Gallwn ymfalchïo yn safon uchel y perfformiadau a bwrlwm afieithus y disgyblion.

Talodd y prifathro, Dylan Wyn deyrnged uchel iawn i'r disgyblion a fu wrthi'n ddwyfal ac yn frwdfrydig yn paratoi at yr Eisteddfod. Diolchodd yn ddiffuant i'r staff hefyd, yn arbennig Mrs Gillian Hearne a Mrs Delor James am drefnu a goruchwyllo'r cyfan, i arweinwyr y noson, ein prif swyddogion – Aled Wyn Thomas a Jane Davies am eu cyflwyniadau graenus ac am eu gwaith caled yn ystod yr holl flwyddyn ac i Miss Mattie Evans a bois y sain a'r llwyfan am eu gwaith caled a phroffesiynol. Yn wir, diolch i bawb a sicrhodd Eisteddfod lwyddiannus arall a erys yn y cof am amser hir.

Dyma ganlyniadau cystadlaethau'r llwyfan: Grŵp Pop – Teifi, Stori a Sain – Teifi, Dawnsio Disgo – Teifi, Sgets – Creuddyn, Meimio – Dulas, Unawd Offerynnol Iau - Joshua Yardy (D), Unawd Offerynnol Hŷn - Caroline Roberts (C), Llefaru Cymraeg Iau - Lowri Elen Jones (C), Llefaru Cymraeg Hŷn – Elliw Dafydd (T), Unawd Merched Iau - Lowri Elen Jones (C), Unawd Merched Hŷn - Elliw Dafydd (T), Unawd Bechgyn Iau - Aron Dafydd (T), Unawd Bechgyn Hŷn - Aled Wyn Thomas (C), Deuawd - Aron ac Elliw Dafydd (T), Areithio - Seb Lee (C), Parti Merched – Creuddyn, Parti Bechgyn – Teifi, Côr – Creuddyn. Enillodd y canlynol wobrau hefyd: Cwpan y cerddor gorau - Joshua Yardy Bl 7 (D), Llefaruwraig orau'r dydd - Lowri Elen Jones (C), Unigolyn â mwyaf o farciau yn y cystadlaethau gwaith cartref - Elliw Dafydd Bl 12 (T), Cwpanau Adran y Gymraeg: Darn gorau o waith Bl 7 - Luned Jones D, Bl 8 - Del Evans T, Bl 9 - Llion Thomas D, Bl 10 +11 - Beca Creamer T, Bl 12 + 13 - Elliw Dafydd T.



Capteiniaid, Is-gapteiniaid ac enillwyr cwpanau Tŷ Teifi wedi eu buddugoliaeth yn ennill marciau uchaf yr Eisteddfod.



Enillydd y Goron am gerdd Saesneg oedd Seb Lee, Creuddyn gyda Althaea Sandover, Creuddyn (dde) yn ail a Sophie Hannaway, Dulas yn drydydd.

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Mawrth: Elaine Davies, Penynant, Alltyblaca 480526
Ebrill: Rhian Lloyd, 12 Bro Ddewi, Ffosyffin 01545 571234
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies,
Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan

Dylunydd: Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btoopenworld.com
Teipyddion Nia Davies, Maesglas 480015
Joy Lake, Llambled

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Meinir Evans, Rhydfechan 421359
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrein/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Meinir Ebbsworth, Brynamllwg 480453
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Linda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856
Ffotograffwyr Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Terry Jones, Awel y Grug, Cwmann 421173
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: www.facebook.com/clonc
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £15 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Mwyniant Llwy'r!

Cawsom noson o ddifyrwch llwyr yn ysgol Cwrtnwydd gyda pherfformiad Cwmni Troedyrhiw o bantomeim hollol wreiddiol 'Y Dyn Drwg a'r Da Da'. Roedd ymateb y gynulleidfa yn dda, a'r plant megis yn dilyn sgript. Golygfa sy'n aros yn y cof yw'r tair merch wedi gwisgo fel gwartheg yn cnoi cil – trwy gydol y perfformiad. Roedd e'n dda.

Nid cystal yw gweld pobol mewn swyddi cyfrifol yn siarad â chi ac yn cnoi 'toffi cnoi' (chewing gum) drwy'r amser. Mae'n naturiol gweld gwartheg yn cnoi ond yn hollol droedig gweld ambell i reolwr pêl droed ac eraill yn gwneud y fath 'stumiau. Soniwyd am un wlad sydd wedi gwahardd y 'toffi cnoi' yn gyfan gwbl ac mae'n bleser gweld strydoedd glân heb olion yn glynu ymhobman. Paham na chawn ni reol ei bod yn rhaid i bob un sy'n defnyddio'r 'toffi cnoi' gario blwch bach, fel yr hen focs baco gynt, i storio'r cyfan wedi gorffen cnoi?

Datblygiadau cyffrous!

Roedd cwrdd ag Eifion Evans, ein Cyfarwyddwr Addysg, a'i dîm rheoli mewn cyfarfod i lywodraethwyr yr Ysgol Uwchradd yn egluro'r cynlluniau i greu campws yn Llanbed gyda'r Ysgol Uwchradd, yr Ysgol Gynradd, y Pwll Nofio a'r Ganolfan Chwaraeon o dan yr un arweinydd yn gwneud llawer o synnwyr. Soniwyd am y pethau a all ddigwydd a fyddai o fudd i bawb yn nalgylch yr ysgol. Bydd y Dref a'r Coleg yn rhoi mewnbn i'r 'Greadigaeth Newydd' hefyd. Soniwyd am greu maes chwarae pob tywydd ar gae'r ysgol ac yn sgil hynny, cael agoriad i faes chwarae'r Coleg a chyfle i ddefnyddio maes criced campws y Coleg.

Gobeithio y gwiredir y cynlluniau

hyn a'n bod yn cefnogi'r syniad sydd wedi gweithio'n gampus mewn ardaloedd eraill.

Pob llwyddiant i'r fenter.

Gweld Eisiau!

Gair sy'n dod yn gyfarwydd iawn y dyddiau yma yw 'counsellor' neu ymgynghorydd. Ysgolion yn cyflogi rhai o'r arbenigwyr yma i ddod i'r ysgol i gynorthwyo plant sydd â phroblemau. Rwy'n synhwyro eich clywed yn dweud "Weles i'r un ymgynghorydd erioed". Naddo, gan fod ein bywyd ni dipyn yn wahanol. Roedd pob un ohonom yn aelod o Gapel neu Eglwys, yn cael cyfle i drafod a thrin problemau gydag oedolion. Byddai'r Gweinidog neu'r Ficer yn galw ac yn trin problemau gyda theuluoedd.

Roeddem yn tyfu'n raddol heb deledu na chyfrifiadur. Y man canolog yn y tŷ oedd y gegin lle byddai'r teulu i gyd yn ymgynnull, yn aml o amgylch yr un ffynhonnell o olau da. Heddiw, ein pobol ifanc â'u trwynau wedi'u gludo wrth declyn chwarae gêmiau a'u clustiau yn gwneud dim ond gwrando ar gerddoriaeth swnllyd. Dyma i fi sy'n creu'r unigrywdd ym mywydau llawer ac yn creu'r angen am wasanaeth ymgynghorwyr - rhywun i siarad ag e. Efallai pe buasai'n to ifanc yn tynnu'r ffôn pen o'u clustiau ac yn gwrando ar yr hyn sy'n digwydd o'u cwmpas, byddai'n ddechreuad da.

Gŵyl Ddewi.

Bydd Dydd Gŵyl Ddewi wedi mynd erbyn y gwêl y rhifyn yma olau dydd. Bydd gweithgareddau gogyfer â'r Eisteddfod yn Llanerchaeron mewn bri. Pob hwyl iddi.

Cloncyn.

Lle aeth pawb?

Cafwyd ymateb da i lun y gwaith sychu gwair yn Llanwnnen, (nid Alltyblaca fel fy atgoffwyd). Deallwyd fod y cynnyrch a ddaeth o'r gwaith yn wych ond fod costau gwresogi yn uchel. Bu'r lle ar agor o 1948 – 1954, rwy'n credu.

Dyma'r wybodaeth am y cymeriadau yn y llun – o'r chwith i'r dde.

1 Dic Williams, Shiloh House, (fforman) (Symudodd Dic a'r teulu i siop Llwynygroes); 2 Alun Jones, Wellfield, Alltyblaca, (AlunTarmac); 3 Elias Depper, Dolau, Teras Victoria; 4 Jim, Dolgader, Llanybydder; 5 Syd Thomas, (Postman); 6 Trefor Arthur Brewer, Rheolwr o Llanilltud Fawr; 7 Ianto Lewis neu Ianto Flix (Dyma oedd enw'r tŷ); 8 Tom Jones, gyrrwr lori, wedyn yn gweithio gyda Gwyn Williams; 9 Gerwyn Jones, Esgairinglis; 10 Lyn Davies, Shell, Bridge St, bu'n gweithio wedyn i'r RAC; 11. Gwilym Lloyd Jones, Gorsgoch.

Diolch i Elias Depper am lawer o'r wybodaeth. Y Bwrdd Marchnata Llaeth a oedd yn gyfrifol am y gwaith. Diau fod Llefelys Davies a Gwarnant Williams yn gyfrifol am ddod â'r gwaith i Lanwnnen. Yn ystod y cynhaeaf gwair a llafur byddai'r ffatri yn gweithio 24awr, 7 diwrnod yr wythnos. Byddai'r ffermwyr o gylch eang - o Landeilo i Aberteifi yn cysylltu â'r rheolwr a byddai yntau'n trefnu iddyn nhw neu i'r cwmni ddod â'r gwair i'r ffatri. Dwy ffwrnes fawr yn cael ei gwresogi gan 'olosg' (coke) oedd yno. Deuai'r golosg o Lambled yn wreiddiol ond nid oedd y gwaith Nwy yno yn cynhyrchu digon, felly rhaid oedd cael cyflenwad o Landeilo. Gwasgarwyd y gwair dros y llawr gwresogi ac fe gymerai tua 20 munud i'w sychu. Un broblem fawr oedd y dwst wrth sychu'r cynnyrch, yn enwedig ar dywydd gwlyb. Talai'r ffermwr y pryd hynny tua £18 punt y dunnell am ei wair ei hun. Byddai hwn yn cael ei wneud yn fynau (bales) a'i ddychwelyd i gyd, mae'n debyg, i'r fferm.

Cyflogwyd y gweithwyr am flwyddyn gron gan y Bwrdd ac fe fyddai ffermwyr y cylch yn talu'r cwmni am wasanaeth y bechgyn i weithio ar y ffermydd yn ystod y gaeaf. Mae dyn yn dysgu rhywbeth o hyd – deallais mai fy mrawd Islwyn oedd ffforman yr ail shift. Roedd hynny wedi mynd yn angof gennyf. Diolch i Elias Depper am y wybodaeth. Eifion.





Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llan
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

**Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees**

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog

Llanbedr Pont Steffan

01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHAW,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

**Arnold Davies
Vincent Evans**

33 Stryd Fawr, Llanbedr
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



Lan

Digwydd 'lan' yn elfen mewn amryw enwau lleoedd lleol: ceir Lan yn Gwyddgrug, Sir Gaerfyrddin, yn Nhregaron ac yn Llandygydd, Treigladd yw 'lan' o 'glan' sef ymyl afon, ymyl cors, ymyl llyn neu ymyl llechwedd.

Dyma flas ar rai enwau lleol eraill sy'n cynnwys yr un elfen: Lan-fraith, Lan-wen (Ffair-rhos); Lan-lwyd (Pennant); Lan-grach, Lan-las (Llanafan); Lan-las bica ger Llyn Egnant (Llynnoedd Teifi); y Lanolau (Llanfihangel-y-Creuddyn).

Ond mae nifer o enghreifftiau cyfarwydd mewn enwau lleoedd o gamddehongli 'lan' a deall yr elfen yn union fel petai'n dreigladd o 'llan' sef eglwys. 'Llan' yw'r elfen fwyaf cyffredin o ddigon mewn enwau lleoedd yng Nghymru ac efallai bod tuedd erbyn hyn i dderbyn mai unig ystyr 'llan' yw 'eglwys' – a hynny am fod enw sant yn dilyn 'llan' yn aml iawn. Ond mewn cyfnod cynharach, un ystyr i 'llan' oedd darn o dir wedi'i gau ar gyfer tyfu cynnyrch neu gadw eiddo. Mae'r ystyr honno'n dal mewn enwau cyffredin megis 'coedlan', 'ydlan', 'perllan', 'corlan'. Datblygiad o'r ystyr hon yw 'darn o dir cysegredig, mynwent, eglwys'.

Cyn cloi'r wers, mae'n werth treulio ychydig o amser yn ystyried enghreifftiau nodedig, o dde ddwyrain Cymru'n bennaf, lle mae '(g)lan' wedi'i gamddehongli'n 'llan'.

Yn Llanrhymini, Llancaech, Llancafarn nid 'llan' yn dynodi sefydliad eglwysig a gawn o gwbl, ond yn hytrach adffurfiad gwallus o 'glan' sef ymyl afon neu nant; a'r elfen gyntaf yn cael ei dilyn gan enw'r afon neu'r nant honno. Mae'r ffurfiau cynharaf ar yr enwau yn dangos hynny'n eglur: Lanrumpney (1624), Glancayach (1619). Fuodd erioed seintiau o'r enw Rhymni, Carfan na Chaeach. Yr hyn a gawn yn Llancafarn yw 'llan' yn disodli 'nant'; Nantcarfan yw'r ffurf a gofnodir yn y 12fed ganrif.

Ystyr 'carfan' yw cefnen a fyddai'n dynodi ffin efallai; cyfeiria 'rhymni' at erfyn miniog tebyg i ebill; yr elfen 'cae' a geir yn Caeach a dynodai Nant Caeach y ffin rhwng Senghennydd Uwch Caeach a Senghennydd Is Caeach.

Yn Sir Fynwy mae Llancaeo: coffeir enw'r afon yn Cwmcaeo. Er y gallai'r elfen 'llan' yn yr achos hwn ddynodi eglwys, does dim tystiolaeth bod eglwys wedi bod yma erioed. Disgwylid y ffurf Llangaeo; nid oes tystiolaeth o ffurf o'r fath ychwaith. Fel yn achos Cao yn Sir Gaerfyrddin, mae'n debygol mai enw ar berson yw Cao, cyfaill arall a gollwyd yng ngwyll y canrifoedd. Yng Ngwent, yn ogystal, mae Llanyrafon (glan yr afon), Llanmelin (glan melin) a Llanolwy (glan afon Olwy).

Yn nes atom ni yn ardal 'Clone' mae Llanfarian. Nid oes eglwys y gellir ei chysylltu â'r enw hwn. Mae'n debygol mai 'graeon' yw ystyr yr ail elfen. Mae'n bosibl bod 'llan' wedi disodli 'nant' er nad oes tystiolaeth o hynny. Posiblwydd arall yw bod 'llan' wedi disodli 'llain' sef darn o dir.

Enw arall ar Lanfarian yw Pentre-bont a'r ail elfen yn cyfeirio at Bont Llanychaeam. Llifa Afon Ystwyth dan y bont hon gan ffurfio'r ffin rhwng plwyfi Llanbadarn a Llanychaeam.

Gerllaw Abermagwr yng Ngheredigion mae Llanddwy. Llanddwy, yn ogystal, oedd yr hen enw ar blwyf ac eglwys Llandrindod. Digwydd yr enw Llanddew yn Sir Frycheiniog.

Yn Sir Forgannwg mae Llandow. Mae'r ail elfen ym mhob un o'r 'llannau' hyn yn cynrychioli ffurf gynnar ar 'Duw' ac ystyr yr holl enwau yw 'eglwys wedi'i chysegru i Dduw'. Yn ystod yr oesoedd canol diweddar, sut bynnag, ailgysegrwyd amryw eglwysi yng Nghymru a oedd wedi'u cysegru i Dduw, i'r Drindod Sanctaidd.

Y wers yw bod rhaid arfer y gofal mwyaf wrth geisio egluro enw lle, er bod pob un o'r elfennau yn ymddangos yn ddigon cyfarwydd ar yr olwg gyntaf.

Y tro nesaf byddwn yn ystyried Lango a Gwarcefel.

O Siambr Cyngor Sir Gâr gan Pryfyn



Darllenais yn y wasg y dydd o'r blaen am ganlyniadau arolwg a wnaed am ganfyddiad plant mewn tair sir wledig am darddiad bwydydd bob dydd. Un ateb cyffredin a gafwyd yn llawer rhy aml, gan amryw o'r 1,100 o blant a oedd yn rhan o'r arolwg, oedd mai defaid sy'n dodwy'r wyau sy'n ymddangos ar y bwrdd brecwast.

Yr hyn a'm hatgoffodd am yr hanesyn bach trist hwnnw yw'r ffaith ei bod hi'n ymddangos mai trefn llawn mor anhygoel sy wedi gyrru rhai o weithgareddau Cyngor Sir Gaerfyrddin yn ogystal dros yr wythnosau diwethaf.

Dyna'r holl sôn a fu o gwmpas y Siambr ers dechrau'r flwyddyn am y cynnydd a fydd yn digwydd yn nhreth y Cyngor eleni. Ddechrau Ionawr dyma Meryl G., arweinydd Cyngor Sir Gâr, yn datgan y gallai trethdalwyr y sir wynebu cynnydd o ryw 10% yn nhreth y cyngor. Ac i osgoi hynny, dyma gynnig rhestr o doriadau posibl: torri gwasanaethau sylfaenol i'r henoed, torri gwasanaethau sylfaenol ym maes addysg, cynyddu pris cinio ysgol. Ond dyma arweinydd yr Annibynwyr yn honni yr un wythnos na fyddai torri ym maes gwasanaethau cymdeithasol nac ym maes addysg. Yr arweinydd Llafur yn bytheirio ei bod hi'n hirlwm difrifol ar y cyngor – yr hirlwm gwaethaf a welodd yn ystod ei 30 mlynedd ar y cyngor.

Daeth sôn wedyn am gynnydd o 12% yn y dreth y flwyddyn nesaf a'r arweinydd Llafur ar y cyngor yn dweud ei bod yn gysur iddo mai cynnydd bychan fyddai yn y dreth. 12% yn gynnydd bychan – bachan, bachan. A chysur pellach iddo yw fod gennym faes rasio ceffylau o'r radd flaenaf yn Ffos Las. Mae'n siŵr bod hynny'n gysur hefyd i'r rheini sy'n pryderi am wasanaethau cymdeithasol, am ieched, am ofal, ac am addysg yn Sir Gâr?

Yr hyn a awgrymir gan y canrannau ysgubol a ddyfynnwyd gan arweinwyr clymblaid yr Annibynwyr-Llafur yw eu bod yn analluog i reoli mewn cyfnod o argyfwng, yn analluog i reoli cyllidebau, yn analluog, hyd yn oed, i gytuno ymysg ei gilydd. Mae'n siŵr bod y sylw treiddgar am gysuron Ffos Las yn awgrymu rhywbeth hefyd ... Mae'n ofid bod y cyfan hyn yn rhan o Gyngor Sir Gâr.

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn deall y sefyllfa i'r dim. Wedi'r cyfan, efe sydd wedi camreoli economi Cymru o Lundain dros y blynyddoedd ac o ganlyniad, ni sydd ar waelod y domen. Fe ymwelodd â Chaerfyrddin yr wythnos o'r blaen a gweld effaith camreoli'r annibynwyr-Llafur â'i lygaidd ei hunan. Arhosodd e ddim yn hir. Roedd ar ei ffordd i un o'r prydau £1000 y pen hynny a drefnir gan Liebor. Cofiw yn hir ei frawddeg anfarwol: dyw hi ddim cynddrwg arnoch chi yma ag yw hi yn Rwanda, bois bach.

A chafwyd ryw anhawster digon tebyg yng nghyfarfod y Cyngor ar 10 Chwefror eleni. Y datganiad a gafwyd yno yw bod paratoi dogfennau mewn ieithwedd ddealladwy yn creu anhawster i ddarllenwyr!

Ac er gwybodaeth, dyw defaid ddim yn dodwy wyau.



MAWRTH

- 3 Dosbarth wythnosol Yoga yn ail gychwyn gyda Js Workout yn Neuadd yr Ysgol Llanfihangel ar Arth o 8 - 9 cost sesiwn £3.50
- 5 Bingo Pwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd yn Ysgol Gynradd Cwrtnewydd.
- 5 Noson Agored Gŵyl Ddewi Cymdeithas Ddiwylliadol Bethel Parcyrrhos yng Nghanolfan Cwmam am 7.30yh. Gwr gwadd: Dr Hefin Jones, Caerdydd.
- 8 Cawl a Chân yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen am 7y.h. Adloniant gan blant yr ysgol a Lleisiau Bro Eirwyn.
- 9 Cyfarfod cangen Llanybydder Diabetes UK Cymru yn Festri Aberduar am 7.30y.h. Siaradwr gwadd Dai Williams o swyddfa Cymru Caerdydd.
- 10 Gyrfa Chwist yn y Llew Du Llanybydder am 8:00y.h. Elw tuag at ganghennau lleol o Sefydliad Prydeinig y Galon, Ymchwil y Cancr UK a Diabetes UK Cymru.
- 13 Eisteddfod Rhanbarth Cynradd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
- 14 Oedfa'r Ifanc yn Noddfa am 5:00y.h.
- 17 Eisteddfod Rhanbarth Dawns ac Aelwydydd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
- 19 Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
- 19 Bingo gan Sioe Cardis Canol y Sir yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen am 7:30y.h.
- 20 Cyngerdd yng nghwmni Côr Meibion De Cymru am 7.30 y.h. yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers.
- 22 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Ebrill.

EBRILL

- 11 Rihysal Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambod ym Methel CwmPedol am 3:15y.p.
- 25 Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel Llwynrhodwen, Rhodwen am 2.00y.p. a 5:30y.h.
- 26 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Mai.

MAI

- 1 Noson yng nghwmni Dewi Pws, Ryland Teifi, Roisin Clansy Davies, Radwm a Sesh Mawr yn y Llew Du Llanybydder. Elw tuag at yr Ambiwylans Awyr Cymru ac M.S. Cymru Tocynnau gan Doreen (480461) a Delyth (480577).
- 1 Eisteddfod Capel y Fadfa Talgarreg. Manylion pellach: Emyr Griffiths ar 01545 590383 neu Janice Davies ar 01545 590318.
- 1 Ffair Fai ym Mart Llanybydder - Apêl Sioe'r Cardis. Rhagor o fanylion i ddod eto.
- 3 Noson Helfa Drysor gyda C.Ff.I Llanwenog. Dechrau yn ysgol Llanwenog 6:30-7:30y.h.
- 9 Rihysal Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambod ym Methel Silian am 2:00y.p.
- 16 Rihysal Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambod yn Salem, Caio am 2:30y.p. a 6:00y.h.
- 17 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Mehefin.
- 22 Rali C.Ff.I. Ceredigion.
- 31 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion ar stad Llanerchaeron.

MEHEFIN

- 1-5 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion ar stad Llanerchaeron.
- 11 Côr Cwmam yn trefnu Cyngerdd yn Neuadd Felinfach am 8 00 o'r gloch gyda Timothy Evans, Kees Huysmas, Dai Jones ac eraill. Elw at Apêl Sioe Cardis.
- 12 Ball, Prifysgol Llanbedr Pont Steffan.
- 21 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Gorffennaf.
- 25 Rasys Sarn Helen yn Ysgol Gynradd Felinfach.

GORFFENNAF

- 3 Cangen NSPCC Llanybydder yn trefnu Dawns Haf yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, am 7.30y.h. Tocynnau: Ann Smith 01570 480306 neu Linda Davies 01570 480054. Yr elw tuag at yr NSPCC
- 19 - 22 Sioe Frenhinol Cymru - Sioe'r Cardis.

AWST

- 13 Sioe Llambod.
- 14 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.

Cyrsiau

Trefnwyd cyrsiau Amddiffyn Plant ac Iechyd a Diogelwch yn ddiweddar a mynychwyd y cyrsiau gan nifer o aelodau ac arweinyddion y Sir.

Dramau

Cynhaliwyd cystadleuaeth y ddrama yn ystod yr wythnos 15fed - 19eg o Chwefror gyda 15 clwb yn cystadlu. Cafwyd 5 noson llawn adloniant gyda safon uchel a chyson. Dr Roger Owen oedd yng ngofal y beirniadu. Actor Gorau 16 neu iau - Ifan Jones, Tregaron. Actores Orau 16 neu iau - Elliw Dafydd, Bro'r Dderi. Actor Gorau - Llyr Jones, Pontsian. Actores Orau - Lowri Jones, Caerweddros. Set Orau - Felinfach. Cynhyrchydd Gorau - Gareth Ioan, Caerweddros. Sgript Orau - Mydroilyn. Perfformiad Technegol Gorau - Mydroilyn. Clwb Buddugol - Caerweddros, 2il - Mydroilyn a 3ydd - Llanwenog.

Dyddiadau i'w cofio:-

05.03.10 - Dawns Dewis
Swyddogion, Tyglyn Aeron
05 + 06.03.10 - Penwythnos Saesneg Cymru
27.03.10 - Diwrnod Maes, Tregaron
04.04.10 - Diwrnod Hwylus Sul y Pasg yng Nghlwb Rygbi Aberaeron
09.04.10 - Gala Nofio, Aberaeron
10.04.10 - Diwrnod Maes Cymru, Llanyddyfri
16.04.10 - Cinio'r Cadeirydd, Prifysgol Llambod



Actores Orau 16 neu iau - Elliw Dafydd, Bro'r Dderi.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

Ychydig wythnosau nôl, fe gafwyd cyhoeddiad bod Prifysgol Aberystwyth yn bwriadu cael gwared â 70 o swyddi yn ei Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS). Roeddwn yn siomedig iawn i glywed am y cynlluniau hyn ac rwyf wedi cwrdd gydag Is-Ganghellor y Brifysgol ynghyd â chynrychiolwyr undeb ar ran gweithwyr y Sefydliad. Fe fydd colli 70 o swyddi da yn ergyd drom i economi ardal Aberystwyth ac mae'n hanfodol fod y broses ddiswyddo yn dryloyw ac yn cymryd yr holl opsiynau eraill i ystyriaeth.

Ddechrau mis Chwefror, fe gynhaliwyd pleidlais ar lawr siambr y Senedd i ddechrau'r broses o gynnal refferendwm i roi pwerau deddfu cynradd i'r Lywodraeth y Cynulliad. Roeddwn yn falch iawn bod pob Aelod Cynulliad a oedd yn bresennol y diwrnod hwnnw wedi cefnogi'r bleidlais ac fe fydd yn awr angen i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ystyried y mater ymhellach dros yr wythnosau nesaf er mwyn symud y broses ymlaen.

Ddechrau mis Chwefror hefyd fe fynychais lansiad swyddogol ymgyrch etholiadol San Steffan y Blaid. Daeth tyrfâ dda at ei gilydd yn Neuadd Llwynycelyn ger Aberaeron ar gyfer y lansiad, ac yn dilyn ychydig o gawl fe gafwyd adloniant dan arweiniad Dai Jones, Llanilar. Roedd Angharad Mair hefyd yn bresennol er mwyn cyfweld ag ymgeisydd seneddol Plaid Cymru, Penri James. Rwy'n edrych ymlaen at gynorthwyo Penri gyda'i ymgyrch dros yr wythnosau nesaf.

Bues hefyd mewn cynhadledd yn ddiweddar yn Aberystwyth ar dwristiaeth yng Nghanolbarth Cymru. Yn rhan o'r gynhadledd, roedd yn ffrainc i gael fy ngwahodd i lansio taflen newydd i hyrwyddo Tocyn Crwydro ar hyd yr arfordir ar reilffordd y Cambria. Mae taith trên yn aml yn brofiad dymunol ac rwy'n gobeithio y bydd y daflen hon yn amlgu'r atyniadau i deithwyr ar eu siwrneiau ar hyd Llinell Arfordir Y Cambria.



D & C Rallying



Rhif Ffôn 01570 434 244 / 07973 420 664

CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4

Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math
a pharatoi eich car ar gyfer MOT

* Teiars o bob math * Olew * Filteri * Batris * Brêcs *

Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni
Tanrhos, Cwrtnewydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN

O'r Cynghorau Bro



Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Tom Jones, Clerc: Eirlys Davies, Gohebydd y Wasg: Dewi Davies, Cynghorydd Sir: Linda Evans. Cyfarfu'r Cyngor ar 6 Ionawr 2010

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod yn Ffestri Capel Nonni gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i'r aelodau. Dymunwyd gwellhad buan i Emrys Evans sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Estynnwyd llongyfarchiadau'r Cyngor i'r Cwnstabl Rhydian Jones am ennill gwobr am ei waith clodwiw yn y gymuned.

Cafwyd cadarnhad fod Tom Jones wedi archwilio'r maes chwarae a'r adnoddau yno yn ofalus yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Cadarnhawyd bod y gwaith trwsio ar y ffordd ger yr Horse and Jockey yn dechrau yfory.

Penderfynwyd peidio â chodi'r praesept ar gyfer y flwyddyn 2010-2011.

Enwebwyd Eric Davies i gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd Menter Bro Dinefwr.

Cyflwynwyd cyfrifon blynyddol y Cyngor Bro.

Fel rhan o'r strategaeth rheoli cyflymder cefnogwyd gostwng y cyflymder y tu allan i ysgol Llanllwni i 30 m. y. a.

Derbyniwyd manylion am ffrwd ariannu newydd a allai fod o ddiddordeb i fusnesau yn ein cymuned.

Derbyniwyd llythyr gan y Cyngor yn dweud bod angen enwebu ymddiriedolwyr i Gronfa Fudd Gymunedol Fferm Wynt Alltwalis.

Penderfynwyd enwebu'r Cadeirydd a'r Is Gadeirydd.

Penderfynwyd cefnogi: Shelter Cymru, Sefydliad Aren Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy, Cyngor ar Bopeth, Eisteddfod yr Urdd Ceredigion, Ambiwylans Awyr Cymru, CFFi Sir Gâr, Macmillan, Gofal mewn Galar, Cymorth i Ddiodefwyr Cymru, Pwyllgor Henoed y Pentref.

Ystyrir cefnogi'r Ysgol Feithrin a'r Ysgol yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb ac am eu brwdfrydedd dros y plwyf.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 yh.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 8 Mawrth 2010 am 8yh.

Cyngor Tref Llambod

Maer: Selwyn Walters, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cynghorydd Sir: Ivor Williams. Cyfarfu'r Cyngor ar 28 Ionawr 2010 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd ac offrymwyd gweddi gan y Cyng. Dorothy Williams.

Llongyfarchwyd y Maer a'r Faeres ar enedigaeth eu hŵyr, Evan.

Daeth y cyfnod ymgynghori ynglŷn â sefydlu parth dialcohol i ben ar 30 Medi 2009. Bydd Cyngor Ceredigion yn ystyried yr ymateb ac yn llunio adroddiad i'w roi gerbron y Cabinet. Bu oedi o achos pwysau gwaith.

Bu Clerc y Cyngor mewn Cyfarfod Ymgynghorol gydag Awdurdod Heddlu Dyfed Powys. Mae Pecyn Gwybodaeth yn amlinellu'r hyn a drafodwyd ar gael yn Llyfrgell y Dref. Mae gwybodaeth bellach ar gael gan Awdurdod yr Heddlu ar 01267 226440. Bydd Simon Powell, Comander Rhanbarthol Newydd Ceredigion, yn dod i gyfarfod nesaf Cyngor y Dref

Nododd yr Arolygydd Paul Bonning fod yr heddlu wedi ymateb i amryw o alwadau a gododd oherwydd y tywydd drwg diweddar.

Diolchodd y Maer i PCSO Ryan Jones am ei waith yn llunio cais am gymorth gwerth £15,000 ar gyfer Maesyderi. Mae'r cyllid ar gael am fod yr heddlu wedi atafaelu eiddo troseddwyd.

Etholwyd Rob Phillips yn Faer am y flwyddyn 2010-11 a Hag Harris yn ddirprwy. Byddant yn dechrau ar eu dyletswyddau ym mis Mai.

Penderfynwyd cefnogi Canolfan Ieuencid Llambod â rhodd o £11,500.

Enwebwyd Elsie Dafis i gynrychioli Cyngor y Dref ar Fwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor ar Bopeth.

Gwneir pob ymdrech i wella mynediad i gerbydau trwm i Faes Parcio'r Rookery. Codir tâl am barcio yno bellach.

Cefnogodd y cyngor gais gan Gyngor Ceredigion i gyflwyno cynllun parcio cyfnod cyfyngedig ar Faes Parcio'r Cwmins. Ond methwyd â mynd â'r maen i'r wal ar unwaith oherwydd anawsterau cyfreithiol parthed statws y Cwmins.

Mae sawl trafodaeth am barcio yn y dref ar y gweill ond rhaid aros am ymateb o du'r Cyngor Sir cyn gallu symud pethau yn eu blaenau.

Bydd Cyngor y Dref yn gallu defnyddio ystafelloedd yn Hen Neuadd y Dref pan ddaw'r cytundeb i'w lawn rym.

Penderfynwyd cefnogi: Pwll Nofio Llanbedr Pont Steffan; Cyngor ar Bopeth; Clwb Cerdd Llambod; Macmillan; Cam-fan; Clybiau Ffermwyr Ieuanc Ceredigion; Age Concern, Ceredigion; Young at Heart.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 25 Chwefror 2010 am 7pm yn Neuadd yr Eglwys.

Cyngor Cymuned Llanybi

Cadeirydd: David Jones, Clerc: Mrs Mair Spate, Cynghorydd Sir: Odwyn Davies. Cyfarfu'r Cyngor ar 27 Ionawr 2010

Gofynnwyd am yr un faint o 'presept' a'r llynedd.

Nodwyd bod cymhorthdal ar gael i greu llwybrau.

Bu cais Maeslletydybi am fynediad amaethyddol yn llwyddiannus.

Rhoddwyd gwahoddiad i Mr Digby Bevan ddod atom yn y cyfarfod nesaf i annerch ar y testun cyfoes 'Tai Fforddiadwy'.

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Mary Thomas, Clerc: Wenella Evans, Cynghorydd Sir: Haydn Richards, Cyfarfu'r Cyngor ar 23 Chwefror 2010. Croesawyd pawb i Neuadd y Pentref, Drefach gan y Cadeirydd.

Cyn dechrau'r cyfarfod, croesawyd y Clerc newydd, sef Miss Gwennan Davies yn wresog gan ddymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd gan y Cadeirydd. Diolchodd hefyd i Mrs Wenella Evans am ei gwasanaeth gan ddymuno'n dda iddi yn y dyfodol.

Soniodd y Cyng Haydn Richards ei fod wedi mynychu cyfarfod arall o fewn y sir parthed graeanu'r ffyrdd tu allan i'r ysgolion cynradd yn y plwyf. Mae'r Cyngor Sir wedi addo ailedrych ar y sefyllfa gan obeithio y byddant yn gallu rhoi blaenoriaeth i raeau'r ffyrdd yma.

Y Clerc i gael amcan brys am lamp drydan yng Nghwrtnewydd erbyn y cyfarfod nesaf.

Angen arwydd newydd yn Llanwenog gan fod y gwreiddiol wedi diflannu.

Croesawyd Mr Haydn Lewis, Swyddog Hawliau Tramwy, Cyngor Sir Ceredigion i drafod llwybrau agored yn y gymuned. Cafwyd anerchiad diddorol ganddo ac fe addawodd fap o'r llwybrau presennol i'r Cadeirydd fel bod y cyngor yn medru trafod ymhellach.

Cymorth Cristnogol

Diolch yn fawr i gapeli Alltyblaca, Bethel Drefach, Brynteg, Capel y Cwm, Capel y Bryn a Seion Cwrtnewydd am eu cyfraniadau caredig tuag at Gymorth Cristnogol adeg y Nadolig.
Daeth y cyfanswm eleni yn £125.



COLEG MEIRION-DWYFOR

Wyt ti'n meddwl am gwrs yng Nglynllifon?
Angen llety yn ystod y tymor?

Mae Hostel Glanrafon yng Nglynllifon
wedi ei hadnewyddu!

Cyfleusterau ensuite newydd
Cegin hunanddarpar newydd
Lolfa deledu
Cysylltiad rhyngrwyd yn y lloffttydd
Cysylltiad teledu yn y lloffttydd
Brecwast a phryd nos yn ystod yr wythnos
Lle parcio
Ystafell dau wely £75/£80 yr wythnos
Grantiau ar gael!

Cyrsiau sydd ar gael:

Amaeth . Rheolaeth Anifeiliaid . Peirianeg
Coedwigaeth a Rheolaeth Cefn Gwlad
Astudiaethau Ceffylau

Am ragor o fanylion cysylltwch â ni
Glynllifon: 01286 830 261
coleg@meirion-dwyfor.ac.uk
www.meirion-dwyfor.ac.uk

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Capel y Groes oedd man cyfarfod Y Gymdeithas ym mis Chwefror a chroesawyd pawb ynghyd gan y Cadeirydd Dilwen George.

Estynnwyd cyfarchion pen blwydd i Dilwen George, Eifion Davies a Mary Thomas, a chydymdeimlwyd â Betty Phillips, a Hyw Davies.

Aeth y Cadeirydd ymlaen i gyflwyno'r siaradwr gwadd, sef Peter Jenkins o Gei Newydd. Ganwyd Peter yng Nghwrtnewydd yn fab i Mr Griff Jenkins, Griff y Gof, a'i briod. Cafwyd darlun o'i fywyd wedi iddo adael Ysgol Uwchradd Llambled a dechrau yn Aberporth fel peiriannydd. Gwnaeth ei brentisiaeth yn Farnborough, Aberporth a Malvern. Dychwelodd wedi arbenigo ym myd RADAR - slumyn bacwn yr awyr. Teithiodd gyda'u waith yn gosod a chywiro cyfarpar Radar o Aberporth i Hong Kong, Singapore, Brunei a Ghana, a llawer o wledydd eraill cyn ail sefydlu yn ôl yn Aberporth.

Cafwyd orig ddiddorol iawn yn ei gwmni a chawsom gipolwg ar y cyfan wedi'i ddarlunio ar y sgrin. Fe'n rhyfeddwyd ni gan y datblygiadau ym myd awyrennau a'r cydweithio mawr rhwng yr Amerig a Phrydain.

Diolchwyd iddo gan Mary Jones, Penrheol. Yn dilyn, cafwyd bwyd wedi'i baratoi gan wragedd y Capel ac Aneurin. Diolchwyd gan Jean Evans, Llwyn y Gog, ac enillwyd y raffl gan Irene Jones, Nel Price a Ray Davies, Crug.

Bydd ein cyfarfod nesaf ym Methel Drefach ar Fawrth y 10fed, pan fyddwn yn croesawu plant ysgol Llanwenog i'n diddori.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Siwan Davies, Llys Deri ar ennill Cadair yr Eisteddfod Ryng-Gol yn ystod y mis.

C.Ff.I. Llanwenog

Ddiwedd mis Ionawr braf oedd dathlu ein cinio clwb blynyddol ym Mhrifysgol Llambled. Cafwyd noson hwylus iawn. Ein gŵr gwadd eleni oedd Dan Downes o Dregaron. Hoffem ddiolch yn fawr iddo am ei eiriau pwrpasol; mae'n amlwg ei fod wedi cael nosweithiau difyr iawn allan gyda aelodau'r clwb! Llongyfarchiadau i Gwennan Davies ar gipio cwpan yr aelod mwyaf gweithgar dan 26 oed ac i Sioned Davies ar ennill cwpan yr aelod mwyaf gweithgar dan 16 oed. Da iawn chi, ferched!

Noson o gwca a blasu oedd gan y clwb ar y 1af o Chwefror wrth i ni gwca panews. Roedd rhai aelodau yn fwy mentrus na'i gilydd ond roedd pawb wedi mwynhau ac yn gadael â'u bolie i gyd yn llawn.

Drwy'r mis bu aelodau hynaf y clwb yn ymarfer ar gyfer cystadleuaeth y ddrama. Enw'r ddrama oedd Ffair Ffeiradon. Nos Wener y 19eg yr oedd y clwb yn cystadlu a honno'n noson y canlyniadau. Ac ar ôl aros yn amyneddgar fe gyhoeddwyd bod Llanwenog wedi dod yn 3ydd. Da iawn chi a hoffai'r clwb ddiolch i Linda Jones am ei gwaith gyda'r cynhyrchu a'r paratoi. Hefyd hoffem ddiolch i bawb a wnaeth helpu gyda'r set.

Brynteg

Cynhelir Cwrdd Gweddi Byd-eang y Chwirydd yng Nghapel Brynteg ddydd Gwener Mawrth 5ed am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i chwirydd o bob enwad yn yr ardal ymuno â ni yn y gwasanaeth blynyddol hwn.

Eglwys Santes Gwenog.

Wedi ymddeoliad ein ficer, y Parch Bill Fillery, diolchwn i'r ficeriaid canlynol am wasanaethau'r Sul:- Parch Mrs J. Robbins; Parch J. E. Jones; Parch Suzie Bale, a'r Parch Jeffrey Clayton. Gwerthfawrogn eu parodrwydd i ddod atom.

Llongyfarchiadau i Gwennan Davies, Llyseri a Brynderi, Llambled ar ei hapwyntiad yn Glerc i Gyngor Cymuned Llanwenog; bu'n llwyddiannus hefyd gyda chais i'r Ymddiriedolaeth Elusengar i Bobol Ifanc. Mae Gwennan hefyd wedi'i dewis yn Arweinydd ar dîm C.Ff.I. a fydd yn cynrychioli Cymru yn y Rali Ewropeaidd a gynhelir yn ystod yr haf eleni yn Sweden. Derbyniodd y rhodd tuag at y daith oddi wrth Mr Gareth Rowlands, yr Uchel Sirydd, mewn cyfarfod yn Aberystwyth

Ymfalchiwn yn llwyddiant ei chwaer Siwan, sydd yn fyfyrwraig yng Ngholeg Aberystwyth, ar ennill Cadair yr Eisteddfod Ryng-Golegol yn Aberystwyth yn ddiweddar. Dyma'r drydedd gadair iddi ei hennill. Da iawn a phob lwc i'r dyfodol.

Braf yw gweld Rhys Thomas, Llechwedd, yn trin gwallt yn gelfydd iawn ar raglen 'Wedi 3' ar S4C - mae'n dilyn ôl troed ei fam!

Daeth llwyddiant i C.Ff.I. Llanwenog wrth ddod yn drydydd o blith pymtheg o glybiau yn y gystadleuaeth ddrama yn Felinfach yn ddiweddar.



Aelodau a swyddogion Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog yn eu cinio blynyddol.

Dymunwn yn dda i Mr James Thomas, Llechwedd a Mrs Moira Bone sydd yn anhwylyd, ac i bawb arall sy'n dioddef anhwylder neu sydd wedi colli perthynas yn ddiweddar.

Clwb 100.

1. Tom Weaver, Sychbant, 2. Mali Evans, Rhylwyn, 3. Richard Bone, Ochr y Nant.

Adran Bro Gwenog

Cyfarfu'r adran ar nos Fawrth cyntaf mis Chwefror yn Ysgol Cwrtnewydd. Cafwyd noson o Gwis. Mae rhai o'r aelodau wedi bod yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer y Parti Llefaru i Adrannau ar gyfer yr Eisteddfod Gylch. Hoffai aelodau a rhieni Parti Llefaru'r Adran ddiolch i bawb a fu'n cynorthwyo i'w hyfforddi am roi o'i hamser prin i ddysgu'r parti. Gweler y canlyniad o dan ganlyniadau'r Eisteddfod.



Cystadlaethau Siarad Cyhoeddus CFfI Ceredigion - Y tîm buddugol yn y gystadleuaeth dan 26 oed oedd Llanwenog, o'r chwith - Helen Howells, Lyn Jenkins a Carys Jones.



Bu aelodau Clwb Ffermwyr Ieuainc Llanwenog yn canu carolau o amgylch y fro cyn y Nadolig ac yn y llun gwelir Llyr Davies, Ysgrifennydd, Gwennan Davies, Is-gadeirydd a Thrysorydd, a Heilyn Thomas Cadeirydd yn cyflwyno sic eic am £300 i'r RNLI ac yn ei derbyn mae Roger Couch, Rheolwr Gweithgaredd Bad Achub Cei Newydd a Simon Williams, Aelod o'r Criw.

Cwmann

Brysiwch wella

Da deall fod y Canon Winzie Richards yn parhau i wella ar ôl iddo gael ei lawdriniaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Cydymdeimlo

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth annisgwyl Euros Davies Wrecsam, priod hoff Enid a thad a thad-cu cariadus a mab yng nghyfraith annwyl Mrs Adeline Williams, Bryneiddig.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth lem.

Diolch

Dymuna'r Parch Beti Morris a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn dilyn eu profedigaeth o golli gŵr, tad, tad-cu a thad yng nghyfraith, sef y Parch. Ganon Peter Morris. Diolch hefyd am y llu o gardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd ac i bawb a alwodd ym Mro Mihangel, Felinfach.

Diolch

Dymuna Glesni, 1 Heol Hathren ddiolch yn fawr i'w theulu a'i ffrindiau am y dymuniadau da, y cardiau a'r anrhegion yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli. Diolch yn fawr i bawb.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Terry Jones, 1 Cwrt Deri, sydd wedi graddio fel Ymladdwr Tân llawn amser gydag Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn dilyn Cwrs Datblygu Sylfaenol. Man gwaith Terry nawr fydd Gorsaf Dân Pontardawe a dymunwn bob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i Meinir Jones, Hendai ar lwyddo i basio fel *Sister*. Dymuniadau gorau iddi yn ei gwaith yn Uned Gofal Dwys Ysbyty Glangwili.

Sefydliad y Merched

Cafwyd noson hyfryd nos Lun, y cyntaf o Chwefror yng nghwmni Elma Phillips, Morfudd Slaymaker a Veronica James. Sôn yr oeddent am yr amser pleserus a gawsant ar wyliau ym Mhatagonia. Trwy

gyfrwng sleidiau a mapiau cafwyd gwledd i'r llygaidd a'r hanes yn cael ei gyfleu mewn ffordd ddiddorol iawn. Diolchwyd iddynt am noson ddifyr dros ben gan Tegwen Williams. Enillwyd y raffl gan Noleen, Dilys a Mary.

Clwb 225 Pwyllgor y Pentref

1 - £20: Mair Jones, Panteg, Pentrebach; 2 - £15: Ifan Lois Williams, Bronallt, Llangadog; 3 - £10: Mr a Mrs G Hope, Postgwyn; 4 - £10: Miss Gwen Jones, Felindre; 5 - £10: Glesni Thomas, 1 Heol Hathren; 6 - £10: Danny Davies, Brynteifi; 7 - £10: Phylis Smith (Adam Richards); 8 - £5: Eric Williams, Y Fedw; 9 - £5: Glesni Thomas, 1 Heol Hathren; 10 - £5: Mr Williams Young, Gwynfa, Temple Bar.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago

£20 – Mr Edwin Harris, 8 Nantyglyn; £10 - Gweithdy'r Menywod, Neuadd Cwmann; £5 – Gwen Jones, Derimore; £5 – Cara Mai Harries, Llaindelyn, Cellan; £5 - Mr Tom James, Caeralaw; £5 – Mrs Veronica James, Caeralaw; £5 – Mr H E Williams, Brynmeusydd, Parcyrrhos; £5 – Mrs Eleri Davies, 13 Heol Hathren; £5 – Mrs Pat Lloyd Jones, Cedars, Llambod; £5 – Mr Wayne Evans, Anwyllfan, Llanllwni.

Deunaw Oed

Pen-blwydd Hapus i Guto Gwilym, Y Garn ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18oed ddechrau mis Mawrth. Pob dymuniad da i ti Guto i'r dyfodol.

Cymdeithas Bethel Parcyrrhos

Yn ddiweddar cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni'r Parch Eirian Wyn Lewis, Mynachlog Ddu. Bu yn disgrifio ei gysylltiadau ar draws y byd a sôn sut y mae ambell i gyhoeddiad yn troi'n genhadaeth hefyd. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Dilwen Roderick.

Yna, ym mis Chwefror Mr Elfyn Davies, Ffarmers oedd ein gŵr gwadd yng Nghinio'r Gwanwyn. Bu yn sgwrsio'n amryddawn ac yn sôn am un math o waith gwirfoddol y mae'n ei wneud yn y gymuned, sef bod yn Ynad Heddwch. Cafwyd blas ar ddoniolwch a phwysigrwydd y swydd. Talwyd gair o ddiolch iddo gan Mr Cyril Davies.

Cwrtnewydd



Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd yn mwynhau'r wyna ym Mlaenhirbant.

Ysgol Cwrtnewydd

Mae dechrau 2010 mor brysur ag arfer yn Ysgol Cwrtnewydd. Mae'r plant hyn wedi bod yn ffodus iawn i gael gwersi Bible Explorer ac wedi bod yn trafod ac yn dysgu am hanes y Beibl yn wythnosol.

Daeth cynrychiolydd o'r Animal Welfare i ymweld â'r ysgol a siarad â'r plant am bwysigrwydd gofalu am anifeiliaid.

Ymunodd ysgolion Llanwenog a Llanwnnen â ni ar gyfer gweithdy XL Cymru ar y thema Bys ar y Pyls. Cafodd y plant ddiwrnod wrth eu boddau.

Aeth y plant hyn ynghyd â phlant o ysgolion Llanwenog a Llanwnnen i Gastell Henllys am y dydd. Cafwyd diwrnod llawn gweithgareddau a phawb wedi dysgu llawer am Oes y Celtiaid.

Ddiweddd yr hanner tymor rhaid oedd ffarwelio â Miss Alison Bell a oedd wedi bod yn fyfyrwraig yma yn Ysgol Cwrtnewydd am gyfnod.

Hefyd bu rhaid dweud hwyf fawr wrth Miss Lowri Evans a oedd wedi bod yn athrawes yn yr ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf. Bydd pawb yn gweld ei heisiau yn fawr iawn ond dymunwn bob lwc iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Gymraeg, Aberystwyth.

Nos Wener olaf yr hanner tymor cafwyd neuadd orlawn yn gwylio perfformiad Pantomeim Y Dyn Drwg a'r Da Da gan Gwmni Drama Garn Fach. Cafwyd noson i'w chofio a phawb wedi mwynhau mas draw.

Enillwyd Clwb 100 - Chwefror 2010: 1af – Lisa Jenkins, Hafan y Cwm, Cwmsychbant, 2ail – Llyr Rees, Tanrhos, Cwrtnewydd, 3ydd – Ella Davies, Waun, Rhydowen, 4ydd – Lleucu Rees, Caeronnen, Penffordd.

Noson Bingo

Cynhelir Noson o Fingo yn Neuadd Ysgol Cwrtnewydd ar nos Wener, Mawrth 5ed am 8:00 o'r gloch. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at Bwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd – dewch yn llu i gefnogi.

Sarn Helen



Dechrau da i'r rhedwyr fu ras gyntaf mis bach gyda Carwyn Thomas yn gorffen yn y drydydd safle yn ras 10K Sant Ffolant Aberteifi, 4ydd Simon Hall 41 munud 41 eiliad, 8fed a 1af menywod agored Dee Jolly 44 munud 50 eiliad, 13 – a 3ydd D50 Lyn Rees 48 munud a 19 eiliad, 14 a 2il menywod agored Caryl Davies 49 munud 7 eiliad. Simon Hall a Dee Jolly a enillodd y wobr Sant Ffolant o ginio i ddau yng ngwesty'r Cliff Aberteifi.

Yn Aberhonddu roedd y bedwerydd ras yng nghyfres cynghrair traws gwlad Gwent a Mared Owen yn cael ras arbennig unwaith yn rhagor ac yn gorffen yn y chweched safle. Ras dan 13 Caitlin Page yn safle 14 a Ffion Quan yn 23. Yn ras y menywod Caryl Davies yn gorffen yn 80.

Carwyn Thomas yn cipio'r ail wobr yn hanner marathon Cors Caron Tregaron, mewn 1 awr 19 munud a 41 eiliad, ac yn dynn ar ei sodlau roedd Glyn Price 1 awr 19 munud 57 eiliad ac yn gyntaf dynion 40, a Michael Davies yn ail dynion 40 1 awr 23 munud 25 eiliad, Huw Price 1 awr 30 munud 43 eiliad, Simon Hall 1 awr 31 munud 49 eiliad. Gorffennodd Dee Jolly yn ail menywod agored 1 awr 36 munud 11 eiliad, Murray Kisbee 1 awr 41 munud 57 eiliad ac yn gyntaf dynion 55. Ail menywod dros 50 oedd Dawn Kenwright 1 awr 41 munud 57 eiliad, David Thomas 1 awr 41 munud 59 eiliad, Andrew Edgell 1 awr 44 munud, Caryl Davies 1 awr 48 munud 13 eiliad, Angharad Hull 2 awr 5 munud 37 eiliad, Gudrun Jones 2 awr 20 munud 22 eiliad ac Allen Watts 2 awr 57 munud a 56 eiliad.

Ddydd Sadwrn roedd pencampwriaeth traws gwlad Cymru ym Mharc Singleton Abertawe. Ras y merched dan 23, Dee Jolly yn gorffen yn y 5ed safle, Carys Davies 6ed a Caryl Davies 7fed. Jan Jones yn 37 i'r menywod hŷn, Rhian Jones yn 19eg yn y ras dan 15 a Mared Owen yn 4ydd yn y ras i ysgolion cynradd. Hefyd roedd Gareth Jones yn cystadlu i'r dynion hŷn.

Bu rhai o aelodau'r clwb yng nghynulleidfya rhaglen *Jonathan* yn ddiweddar. Y gwsteion oedd Gethin Jones ac Alun Wyn Bevan ac roedd y noson yn ddiddorol iawn.

Annwyl olygydd,

Ysgrifennaf i dynnu sylw eich darllenwyr at gyfle gwych i gael gwefan fach AM DDIM i grwpiau a chymdeithasau o bob math ar Golwg 360.

Bydd nifer o'ch darllenwyr yn gwybod am y gwasanaeth newyddion Cymraeg www.golwg360.com. Dyma wasanaeth cwbl arloesol sydd erbyn hyn yn cyhoeddi rhwng 30 a 40 o straeon newyddion yn ddyddiol.

Erbyn hyn, mae yna adran newydd o'r enw Lle Pawb sy'n cynnig cyfle i grwpiau, cymdeithasau ac unigolion greu eu gwefan fach er mwyn hyrwyddo eu newyddion diweddaraf. Mae'r system yn rhwydd i'w defnyddio, hyd yn oed i rai sydd ag ychydig iawn o brofiad o ddefnyddio'r we. Mae'r cyfarwyddiadau oll yn Gymraeg hefyd.

Cysylltwch â mi ar 01570 423529 / owainschiavone@golwg.com, neu wrth gwrs ymweld â www.golwg360.com

Yn gywir iawn, *Owain Schiavone* (Prif Weithredwr Golwg 360)

Llangybi

Hamdden

Ar Chwefror 5ed treulwyd orig hapus iawn yng nghwmni Mr Dai Jones, Llanilar. Roedd yr aelodau mwynhau ei storïau am y rhaglenni y bu yn eu cyflwyno ar y teledu a'r radio am flynyddoedd lawer. Cafwyd cân ganddo hefyd i ddiweddu'r cyfarfod. Rhoddwyd pleidlais o werthfawrogiad am brynghawn diddan a diddorol gan Mrs Rowena Williams.

Fe fydd ein cyfarfod nesaf ar Fawrth 12fed yn y Coleg yn Llambed am 12:30 o'r gloch a'r gwestai fydd Mr a Mrs John Griffiths o Ledrod. Enwau i'r ysgrifenyddes yn fuan os nad ydych wedi gwneud hynny yn barod.

I ddiweddu'r cyfarfod cafwyd paned o de a bisgedi wedi eu rhoddi gan Sally Davies a Gwenda Thomas. Enillwyd y raffl gan Mair Spate, Margaret Roberts, Alan Jones, Llinos Jones, Dai Jones a Sally Davies.

Merched y Wawr

Y wraig wadd ar Chwefror 10fed oedd Mrs Mair James o Lwynpïod. Cafwyd arddangosfa ddeniadol a lliwgar ganddi o waith llaw. Mae Mrs Jamesyn wraig ddiwyd iawn ac yn creu pethau defnyddiol allan o bethau cyffredin. Talwyd pleidlais o ddiolch iddi am noson mor addysgiadol a hamddenol gan Mary Jones.

Braf oedd cael cwmni Irene Lewis a Gwyneth Jones ar ôl cyfnod o salwch a hefyd Deborah Jones ar ôl ei phrofedigaeth o golli ei mam. I ddiweddu'r cyfarfod cafwyd paned o de a bisgedi wedi eu rhoddi gan Gwyneth Evans ac Irene Lewis. Rhoddwyd y raffl gan Lettie Vaughan, Mary Jones a Mair James. Enillwyd hwy gan Denise Hicks, Lettie Vaughan, Gwyneth Jones, Glenys Lloyd a Mary Jones.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar Fawrth 17eg am 7:30 o'r gloch pryd y byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi. Y wraig wadd fydd y Parch Suzie Bale.

Cydnabyddir cefnogaeth



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

FISHERS ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn.
Cwrrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

Cellan, Llambed
01570 422895

Llanllwni

Genedigaeth

Longyfarchiadau i Keith a Meinir, Brynceirch ar enedigaeth merch fach, Efa. Chwaer fach i Alwyn, Gwion ac Elan. Wyres arall i Ken a Janet, Gwarallt a Lyn Maesyderi a gor-wyres i Dorothy, Gelly.

Llongyfarchiadau

Longyfarchiadau i Elin Jones, Tŷ Newydd, Maesycrugiau ar ddod yn 3ydd yn yr Alaw Werin yn yr Eisteddfod Ryng-Gol yn ystod y mis.

Ysgol Llanllwni yn dathlu

I ddechrau'r dathliadau, cynhaliwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel Nonni nos Sul, 14eg o Chwefror. Cafwyd noson hwylus dan arweiniad Mrs Elonwy Davies gyda'r Ficer Bill Fillery yn llywyddu'r noson. Cafwyd gwledd yn gwrando ar blant yr ysgol a Lleisiau'r Werin yn canu.

Ym mis Mai, bwriedir cael Te Parti Fictoraidd ac arddangosfa o hen luniau ac arteffactau yn yr ysgol. Os oes gan rywun arteffactau neu luniau i'w benthyg byddem yn falch iawn eu derbyn.

Bwriedir trefnu mwy o weithgareddau yn ystod y flwyddyn. Apeliwn am syniadau ac awgrymiadau a gofynnwn i bawb gysylltu â chyn ddisgyblion yr ysgol i ddweud wrthynt am y dathliad hanesyddol hwn. Gobeithiwn groesawu llu o gyn ddisgyblion a llawer o'n ffrindiau'n lleol i ymuno â ni yn ystod y dathliadau. Os am ragor o fanylion, cysylltwch â'r Ysgol 01559 395624 neu â Ruth Evans 01559 395225.

Ysgol Llanllwni

Dymunwn ymddeoliad hapus i'r Parchedig Bill Fillery gan ddiolch yn fawr iddo am ei wasanaeth gwerthfawr i'r ysgol dros y blynyddoedd. Cyflwynwyd anrheg iddo i ddangos ein gwerthfawrogiad. Dymunwn hir iechyd iddo ef a'i briod yn eu cartref newydd yn Llanbed. Llongyfarchiadau iddynt ar enedigaeth wyres fach ym Mhrâg. Llongyfarchiadau i Rhian Thomas, Rhian Glasson, Jasmine a Sioned am gael eu dewis i fod yn rhan o Sioe Gynradd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn dilyn clyweliadau yn Felinfach yn ddiweddar. Pob hwyl gyda'r ymarferion. Bu Miss Tina Jones o Ysgol Dyffryn Teifi yn rhoi gwersi gwyddonol i Flwyddyn 5 a 6. Byddant yn cael sawl sesiwn ganddi yn ystod y flwyddyn. Aeth Blwyddyn 1 a 2 i Ysgol Cae'r Felin i weld sioe Gair am Air gan Gwmni Theatr Arad Goch ac yna ymhen deuddydd aeth Blwyddyn 5 a 6 i weld sioe Print, Pants a Picalhorod gan yr un cwmni. Mwynhawyd y perfformiadau a'r gweithdai yn fawr. Aeth pawb i Ysgol Cae'r Felin yr wythnos olynol i weld



Bu achlysur arbennig Sul y 7fed o Chwefror yn Neuadd Gymunedol Llanllwni. Daeth tua ugain o blant yr Ysgol Sul a nifer o ffrindiau yr Eglwys i gael te parti ac i gyflwyno'r Parchedig Bill Fillery ac Elizabeth ag anrhegion ar achlysur eu hymddeoliad.

Ar ran yr Ysgol Sul fe gafodd y Ficer lun o fynydd Llanllwni mewn ffrâm bren a thysteb anrhydeddus gan aelodau a ffrindiau'r Eglwys. Derbyniodd Mrs Fillery gawg lliwgar yn ogystal â llestri prydferth Portmeirion a phlanhigion i'r ardd. Fe ddaeth y prynhawn i ben gyda'r plant yn canu'r penillion canlynol a gyfansoddwyd gan Mrs Anita Evans i'r Ficer.

I'r Parchedig Bill Fillery a Liz

Testun diolch godir heddiw,
Am saith mlynedd hapus, gu.
Diolch am yr enfys brydferth
A'ch arweiniodd atom ni.

Buoch Ficer Plwyf mor weithgar
Ac i'ch praid yn fugail da.
Gwelir gwacter yn y gorlan,
Teimlir colled – pawb ar chwa.

Gwasanaethoch ardal gyfan,
Caroch Gymru a chyd-ddyn.
Rhannoch wên, a cholloch ddeigrin,
Gyda'ch pobl yn gytun.

Afon Del yn awr sy'n galw
Aelwyd lon i Liz a chi.
Cyfle geir i weld yr wyron
Joiwch, a bendithion lu.

perfformiad addysgiadol Dylan ac Eli Eco sy'n trafod bwyta'n iach a materion amgylcheddol mewn ffordd hwyliog gyda'r Brodyr Gregory. Diolch i Ysgol Cae'r Felin am y croeso. Croeso i Miss Donna Jones i ddosbarth y babanod. Mae Donna yn fyfyrwraig yn yr ail flwyddyn yng Ngholeg y Drindod a bydd yma tan wyliau'r Pasg. Gobeithio y byddi yn hapus yn ein plith. Diolch i berchnogion y Swyddfa Bost am gyfraniad o £22, sef elw'r raffl Nadolig. Cynhaliwyd Cymanfa Ganu lwyddiannus yng Nghapel Nonni nos Sul 14eg o Chwefror yn ddechreuad i'r dathliadau 140 mlynedd o addysg yn yr ysgol. Croesawyd pawb gan Mrs. Nans Davies. Arweinydd y canu oedd Mrs. Elonwy Davies o Lanybydder a Mrs. Margaret Jones yn cyfeilio gyda Lleisiau'r Werin a phlant yr ysgol yn artistiaid. Gwnaeth pawb eu gwaith yn raenus iawn. Cafwyd geiriau pwrpasol gan lywydd y noson, sef y Parch Bill Fillery. Cyflwynodd Jac a Sioned flodau i'r llywydd a'i wraig. Diolchodd Mrs. Meinir Davies i bawb am eu cefnogaeth ac i aelodau'r capel am gael defnyddio'r capel a'r festri.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr Ysgol Mis Chwefror- £10 - 34 - Lewis Thomas, Crossroads, £5 - 132

- Ffion Harries, Maesnonni, £2.50
- 65 - Hamza, Cwmiar, £2.50 - 118
- M Evans, Rhostirion, Peniel, £2.50
- 66 - John Lloyd, 13 Bryndulais.

Taith Tractorau

Bydd Taith Tractorau ddydd Llun y Pasg, 5ed Ebrill, a'r elw tuag at Tŷ Hafan, Yr Hosbis i Blant yng Nghymru. Am 10.00 o'r gloch y bore bydd y tractorau yn gadael Cross Roads, Llanllwni. Trefnir bwyd ar y ffordd a disgwylir isafswm nawdd o £10. Am fanylion pellach, neu am ffurflen noddi, cysyllter â

Tom Lewis, Aneddle, Pencader,
(01559 384279).

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

Llanbedr Pont Steffan

Adran yr Urdd

Eto eleni cynigir trawstoriad o weithgareddau i blesio plant yr Adran. Cafodd yr aelodau gyfle i chwarae amryw o gêmau bwrdd. Roedd pawb wedi cael sbort yn symud o un gêm at y nesaf! Ddechrau'r mis fe wnaeth pawb ymuno i greu baner ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2010 yn Llanerchaeron. Roedd rhai wedi cynllunio ar gyfrifiadur ac eraill yn tynnu lluniau unrhyw beth a oedd yn adlewyrchu Ceredigion neu'r Eisteddfod. Bydd y faner yn cael ei harddangos yn y dref i hysbysebu'r Eisteddfod. Bydd Rhydian o'r Urdd yn dod atom i arwain sesiwn ar sgiliau syrcas a bydd cyfle i bawb ddysgu rhywbeth newydd fel jyglo!

Pob lwc i'r Adran yn yr holl gystadlaethau yn Eisteddfod yr Urdd. Mae'n gyfle i bawb gymryd rhan ac i ddangos eu doniau!

Cylch Cinio

Gwestai'r Cylch yng nghyfarfod 4ydd Chwefror oedd Dr Medwin Hughes Is-ganghellor Prifysgolion Y Drindod a Llanbedr Pont Steffan a darpar Is-ganghellor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Croesawyd ef gan y Cadeirydd, Y Bnr. John Davies.

Yn ei araith cyfeiriodd Dr Hughes yn rhannol at gefndir hanesyddol ac etifeddiaeth Prifysgol Llanbedr PS ac yn rhannol at gynlluniau ar gyfer y brifysgol newydd i Gymru sydd i'w sefydlu eleni.

Gweledigaeth Thomas Burgess, Esgob Ty Ddewi, oedd Coleg Dewi Sant a sefydlwyd yn 1822. Er nad oedd cysylltiadau Cymreig gan Burgess, fe gododd arian ar gyfer adeiladu'r coleg a chreu llyfrgell sydd yn cynnwys sawl trysor ymysg y casgliad llawysgrifau. Iddo ef, addysg yn rhoi statws i'r Gymraeg oedd yn holl bwysig, ond ni adlewyrchwyd ei weledigaeth yn y cwricwlwm wedi iddo adael yr esgobaeth a symud i Salisbury. Ni fu fawr o newid am dros ganrif wedyn, ond o ugeiniau'r ganrif ddiwethaf, pan ddaeth y coleg yn rhan o Brifysgol Cymru, bu datblygiadau pwysig yn y cwricwlwm gan gynnwys cyflwyno'r Gymraeg.

Bellach, mae buddsoddiad sylweddol gan y llywodraeth wedi'i sicrhau at ddyfodol y brifysgol newydd ac mae'n fwriad i adeiladu ar ragoriaethau y ddwy brifysgol. Gyda golwg ar anghenion y rhanbarth hwn a Chymru'r ehangach, mae'n gynlluniau sy'n cynnwys rhoi pwyslais ar etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru, y Gymraeg a dwyieithrwydd, sefydlu Academi Treftadaeth, cynlluniau ynglyn â datblygu cymunedau a datblygiad cymdeithasol, ynghyd â iechyd a gofal cymdeithasol gwledig.

Y Bnr. Andrew Jones a gynigiodd y diolchiadau. Roedd y wybodaeth am y cynlluniau i sefydlu prifysgol newydd o bwys yn nhref Llanbedd a'r De Orllewin yn rhywbeth i'w groesawu'n fawr, meddai. Dymunodd yn dda i Dr. Hughes.

Ar ddiwedd y cyfarfod penderfynwyd cyfrannu £200 tuag at apêl Haiti.

Cymdeithas Hanes

Yr arwerthwr Andrew Morgan oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Chwefror, a threuliwyd amser difyr yn gwrandao arno'n sôn am ochr amaethyddol gwaith yr arwerthwr.

Cafodd tre Llanbedd siarter i gynnal marchnadoedd a ffeiriau nôl yn 1285, a phob ffair ag iddi ei dyddiad a'i henw arbennig, megis Ffair Roblin, Ffair Sant Silin, Ffair Garon Fach, Ffair Dalis, Ffair Bedr, Ffair Hydref, a Ffair Calan Gaeaf. Daeth Ffair Dalis i Llanbedd o Ddihefyd gan fod yna fwy o le i'r delwyr aros yn y dref. Roedd hon yn ffair a oedd yn cael ei chynnal dros ddau ddiwrnod a gyda dyfodiad y rheilffordd, gellid cludo'r ceffylau yn rhwydd i Lundain i weithio ar y wâcs llaeth neu i'r sowth i weithio yn y pyllau glo.

Mae Sioe Amaethyddol Llanbedd ymhell dros 100 oed erbyn hyn a diddorol oedd clywed am rai o ddosbarthiadau'r sioe nôl yn 1925, ac aml i hysbyseb a ymddangosodd yn y catalogau cynnar rheini, megis J.W.Davies; B.J.Jones; Miles Davies, Chemist; D.R.Thomas, Redhill, a Smith Jones, Stryd y Bont.

Da oedd clywed enwau Arwerthwyr yr oes a fu - Ben Williams, sef tad y diweddar Gwyn Williams; D.L.Price; Arnold Rees; Thomas Jones a'i feibion, a King Thomas/Lloyd Jones. Da clywed hefyd am werthiannau'n ymwneud ag offer ffermydd - y tractor yn cymryd lle'r ceffyl a gwaith y ffarm yn newid gyda dyfodiad peiriannau mwy a chryfach.

Clywyd am werthiant aml i stad fawr oherwydd trethi uchel. Ond roedd hynny'n rhoi cyfle i denantiaid ddod i berchen eu lle bach eu hunain. Bu newid mawr o'r 50au ymlaen gyda grantiau i godi adeiladau. Ond erbyn y cyfnod rhwng y 60au - 80au bu dirywiad mawr yn y ffordd draddodiadol o ffermio a'r farchnad yn Llanbedd yn dioddef yn sgil hynny.

Gresyn erbyn hyn yw gorfod dweud mai'r unig farchnad a gynhelir yn Llanbedd yw Marchnad y Ffermwyr, yn gwerthu cynnyrch lleol, ac mai dim ond un stondin sydd ar ôl ar y Cwnins lle bu llond y lle ohonynt ar un adeg. Ond pwy a wyr, efallai y daw'n eto dro ar fyd wrth i ni ddod i werthfawrogi cynnyrch lleol yn hytrach na chludo bwydydd o bellter byd.

Diolchwyd yn gynnes i Andrew



Plant Ysgol Ffynnonbedr a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth cogurdd â'u tystysgrifau - Elan Lewis yn cipio'r wobr 1af yn yr ysgol a 4ydd yn y sir, Lionie (2ail yn yr ysgol) a Lois (3ydd yn yr ysgol).



Wedi trechu ar y lefel sirol bu triawd a thîm cymysg gymnasteg Ffynnonbedr yn cystadlu ar y lefel genedlaethol. Mewn cystadleuaeth o'r radd uchaf fe ddaeth y tîm cymysg yn drydydd. Aelodau'r tîm oedd Rhian Harries, Annie Marshall, Jessica Davies, Jessie Dalton, Red Gale, Elan Lewis, Mari Lewis, Kaydee Evans, Chelsie Malpas, Grace Page, Catrin Davies a Charlotte Saunders.

O blith tri ar ddeg o dimoedd fe ddaeth y triawd sef Elan, Catrin a Charlotte yn chweched. Roedd hynny'n ymgais ardderchog o safbwynt y plant ac mae'r ysgol yn ddyledus i Mr Islwyn Rees am eu hyfforddi.

gan Selwyn Walters, y Cadeirydd. Roedd yntau hefyd yn digalonni wrth sylwi nad yw'r geiriau 'Tref Farchnad' bellach i'w gweld ar arwyddion tref Llanbedd.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Mawrth 16eg am 7.30 yn yr Hen Neuadd, pan fydd yr Athro Geraint Jenkins, Aberystwyth yn siarad am 'Hynafiaethwyr Ceredigion'. Croeso cynnes i bawb.

Mae yna ychydig o galendrau Hanes Llanbedd 2010 ar ôl o hyd; mae'r lluniau yn gofnod hanesyddol gwerth chweil.

Shiloh

"COFIO ISLWYN" oedd testun y ddarlith gan y cyn lyfrgellydd Rheinallt Llwyd i gymdeithas ddiwylliadol Shiloh brynhawn Iau Chwefror 4. Daeth cynulleidfâ gref ynghyd ac fe'u croesawyd gan y llywydd, Mair Lewis. Er i Islwyn gael ei eni yn Wrecsam, magwyd ef ar fferm Aberiwel, Dyffryn Ceiriog. Oherwydd y pellter o'i gartref, rhaid oedd lletya gyda'i nain a'i daid tra yn

yr ysgol uwchradd yn Llangollen a bu dylanwad y ddau yn fawr arno. Ymlaen i Brifysgol Bangor lle bu yn aelod o'r enwog Triawd y Coleg er nad oedd Islwyn bob amser yn sicr o ganu

mewn tiwn! Er yr amheuan amlwg a oedd ganddo, penderfynodd ddilyn cwrs B.D yn Aberystwyth cyn astudio ymhellach am flwyddyn yng Ngholeg y Bala. Yma y cyfarfu â'i annwyl briod Eirlys a bu hi yn gefn mawr iddo yn ei yrfa.

Derbyniodd alwad i fod yn weinidog yn Llanfair Caereinion a Niwbwrch ond nid oedd yn hapus a bu'r cyfan yn ing iddo.

Penderfynodd newid cyfeiriad ac mi gafodd swydd yn ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin cyn gael ei benodi i ddarlithio yn yr adran Gymraeg yn y brifysgol yma yn Llanbedd yn 1975. Bu'n byw yn ein plith am gyfnod hwy nag mewn unrhyw fan arall. Roedd yn gwerthfawrogi'r llonyddwch a'r gymdeithas glos yn Shiloh ac mi wnaeth yr Eglwys ei anrhydeddu yntau a Mrs Bethan Phillips am eu

Llanbedr Pont Steffan



Mary Jones, cogyddes yn Ysgol Ffynnonbedr, sydd wedi derbyn Gwobr Cymeradwyaeth Uchel yn cynrychioli'r ysgol, ac yna'r sir, yng nghystadlaeth Cogydd Ysgol y Flwyddyn 2010 a gynhaliwyd yng Ngholeg Morgannwg, Pontypridd yn ddiweddar. Yn y llun gyda hi mae rhai o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Ffynnonbedr ac yn y rhes gefn o'r chwith - Gill Jones, Cydlynnydd A4L; Elonwy James, Rheolwraig y Gwasanaeth Arlwy; Mary Jones; Rhian Haf Evans, Cadeirydd y Llywodraethwyr; Huw Jenkins, Prifathro a Mandy Evans, Rheolwraig Arlwy Cynorthwyol.

cyfraniad amhrisiadwy i lenyddiaeth Cymru.

Daeth nifer o anrhydeddau eraill i ran Islwyn, ac yn eu plith, ennill llyfr y ganrif gyda'i nofel Cysgod y Cryman. Derbyniodd radd D.Litt gan Brifysgol Cymru, er nad oedd yn ymddangos yn gwbl gyfforddus â'r seremoni ffurfiol yn y Coleg yn Llambled.

John Phillips a gafodd y fraint o ddiolch ac mi gyfeiriodd at Islwyn fel athrylith yn ei faes. Serch hynny, medrai ddod lawr at lefel pobl gyffredin. Erys darlith Rheinallt Llwyd yn hir yn y cof. Heb os, roedd yn fraint o'r mwyaf i aelodau Shiloh gael Islwyn ac Eirlys yn aelodau a ffrindiau agos. Coffa da amdanynt.

Ysgol Ffynnonbedr

Ar ôl bod yn fuddugol mewn cystadlaeth goginio sirol dan nawdd LACA bu Mrs Mary Jones yn cymryd rhan mewn cystadlaeth genedlaethol. Yn un o'r goreuon, derbyniodd wobwr am safon uchel ei choginio. Ymddangosodd ar y teledu a nodwyd ei gorches yn y Western Mail a'r South Wales Echo. Llongyfarchiadau mawr iddi; mae'n haeddu'r wobwr gan ei bod hi a'r merched bob amser yn paratoi bwyd blasus yng nghegin Ysgol Ffynnonbedr.

Mawr oedd diolch plant Blwyddyn 6 Arthur i Mrs Beti Davies, mam-gu Scott am ennill gwobr dan nawdd Western Power. Cafodd y plant ddiwrnod wrth eu bodd yn ymweliad â Gwlyptir Casnewydd yn archwilio arfordir yr Hafren, gwyllo adar a chwilota am fywyd yn un o'r llynnoedd. Aeth Llinos Jones, Claire Davies a'r prifathro a Mrs Davies gyda'r plant a chael llawer o hwyl, er ei bod yn gythreulig o oer!

Gan mai'r ysgol oedd yn gyfrifol am yr eisteddfod gylch, roedd y gwaith yn

sylweddol. Diolchwn yn gynnes i Mrs Llinos Jones am ysgwyddo'r baich. Roedd tipyn i'w drefnu.

Merched y Wawr

Croesawodd Aerwen, ein Llywydd, ni i gyfarfod mis Chwefror a dywedodd ei bod yn dda cael cwrdd ar ôl seibiant hir oherwydd y tywydd oer a'r eira. Canwyd cân y Mudiad gyda Margaret Jones yn cyfeilio.

Aeth Aerwen ymlaen i gyflwyno ein gŵr gwadd, sef Dr. Ieuan Thomas a oedd wedi dod â chriw o Tinopolis gydag e er mwyn gwneud rhaglen ar gyfer Wedi Tri ar S4C.

Wrth ymateb i'r croeso dywedodd ei fod â diddordeb mewn llysiau ers pan yn ddeg oed ar iddo ôl arbrofi â thyfu taten yn yr ysgol. Cyfrannodd hynny at ei benderfyniad i fynd i'r coleg i astudio Botaneg a Sŵleg cyn mynd ymlaen i wneud Doethuriaeth mewn Sŵleg. Gofynnwyd cwestiynau amrywiol iddo a chafwyd atebion yn llawn gwybodaeth. Diolchwyd iddo ar ein rhan gan Avril Williams a dymunodd hithau yn dda i Aerwen ar ôl ei llawdriniaeth. Ar ôl noson wahanol iawn i'r arfer, daeth y cyfarfod i ben gyda Margaret Jones yn ennill y raffl.

Baban newydd

Llongyfarchiadau cynnes i Selwyn a Judith Walters, Lynwood, Heol Llanwnnen ar enedigaeth eu ŵyr cyntaf sef Evan Samuel, mab bach i Bryn a Deirdre yn Twickenham. Pob dymuniad da i'r teulu bach, yn enwedig i Dad-cu a Mam-gu yn Llambled.

Aelwyd yr Urdd

Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol y tymor newydd yn Ysgol Ffynnonbedr. Treuliwyd rhan gyntaf y noson yn paratoi rhaglen amrywiol ar gyfer y misoedd nesaf yn cynnwys Eisteddfod Ddwl, Helfa Wyau Pasg,

y mweliad â'r Ganolfan Hamdden a gweithgareddau amrywiol yng ngofal Wyn. Erbyn i Clonc fynd i'r wasg bydd yr aelodau wedi blasu pancws gyda Sian ac wedi cystadlu yn yr Eisteddfod – cewch yr hanes yn y rhifyn nesaf.

Soniodd Janet am y gystadlaeth cynllunio arwydd i hysbysebu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010 gydag ambell un yn dangos diddordeb.

I ddiweddu'r noson bu'r aelodau yn cymryd rhan mewn gêmiau a gweithgareddau hwyliog yng ngofal Geinor Medi. Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn ôl yr arfer. Diolchwyd i Geinor Medi am noson ddifrif iawn gan Delyth.

Bydd yr aelwyd yn cwrdd nesaf ar Fawrth 9fed – Eisteddfod Ddwl yng nghwmni beirniad o fri.

Noddfa

Mae dyddiad Oedfa'r Ifanc wedi newid oherwydd amgylchiadau anorfod. Y dyddiad newydd yw Mawrth 14, sef Sul y Mamau am 5:00y.h. Estynnir croeso cynnes i bawb i wasanaeth arbennig yn Noddfa yng ngofal y plant a'r bobl ifanc.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddwys â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli perthnasau yn ystod y mis.

Gyrfa Chwist

Nos Fercher, 3ydd o Chwefror cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn: Dynion: 1af: Dai Davies, Pensinrig, Cellan. 2il: Ifan John Davies, Bro Henllys, Felinfach. 3ydd: Iorwerth Evans, Llangybi. Merched: 1af: Beryl Roach, Bro Henllys, Felinfach. 2il: Catrina Davies, Aberaeron. 3ydd: June Mason, Rhes Harford, Llambled. Carden Miniature: Dynion: Peggy Davies, Bro Henllys, Felinfach. Merched: Morfydd Slaymaker. Bwrw Allan: Enillwyr: Margaret Jones, Pentrebach, a Gwendoline Jones, Llanybydder. Ail: Edward Lockyer a Gwen Davies, Llanwnnen.

Yna, nos Fercher, 17eg o Chwefror, dyma'r enillwyr: Dynion: 1af: Gerwyn Jones, Cellan. 2il: Peggy Davies, Bro Henllys, Felinfach. 3ydd: Dai Davies, Pensinrig, Cellan. Merched: 1af: Harry Williams, Ystrad Aeron. 2il: Maggie Vaughan, Bro Henllys, Felinfach. 3: Nancy Davies, Heol-y-Wig, Llambled. Carden Miniature: Dynion: Edward Lockyer, Hafan Deg. Merched: June Mason, Rhes Harford, Llambled. Bwrw Allan: Enillwyr: Eileen Colbourne, Ffostrasol a Nancy Davies. 2il: Ifan Jones, Aberarth a Gwen Davies, Llanwnnen.

Bydd y Gyrfaedd Chwist ym mis Mawrth ar y 3ydd, yr 17eg a'r 31ain. Croeso cynnes i bawb.

Gohebiaeth

Iolo a Shân ar eu ffordd i Lamber!

Bydd cyfres boblogaidd S4C sef "Bro" yn dychwelyd i'n sgriniau teledu ni'n ddiweddarach eleni – ac unwaith eto fe fydd Iolo Williams a Shân Cothi yn mynd ar daith o gwmpas Cymru yn cyfarfod â phob math o gymeriadau diddorol.



Fe fydd darllenwyr Clonc wrth eu bodd o glywed y bydd Iolo a Shân yn ymweld â Llanbedr-Pont-Steffan a'r Fro yn y gyfres eleni, a chriw ffilmio Telesgop sy'n cynhyrchu'r gyfres yn edrych ymlaen at dreulio wythnos yn yr ardal yn ystod mis Mawrth.

Meddai'r darlledwr a chynhyrchydd y gyfres, Terwyn Davies, a fagwyd yn ardal Llambled, "Rydyn ni fel criw yn cael cymaint o hwyl wrth ffilmio'r gyfres hon ac rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael dod i ffilmio rhai o gymeriadau Llambled a'r Fro eleni, gan ddangos yr ardal ar ei gorau. Yn ein tîm ffilmio ni mae tri ohonom yn gyfarwydd iawn â'r dref gan inni gael ein magu yn yr ardal - sef fi, Shân a Cheryl Jones, ein technegydd sain. Rydym ein tri'n edrych ymlaen yn fawr at gael dod adref i'n hardal enedigol i ffilmio, ac rwy'n siŵr y cawn groeso cynnes fel arfer gan bobl Llambled yn ystod ein cyfnod yn y dref."

Fe fydd Iolo, Shân a'r criw ffilmio yn Llambled rhwng Mawrth 22 a 25ain – felly gwyliwch amdanynt nhw ar y strydoedd a gwyliwch hefyd am y rhaglen fydd i'w darlledu ar S4C yn ystod yr haf.

Mae Bro yn gynhyrchiad cwmni Telesgop ar gyfer S4C.

Gwybodaeth.

Yn ymateb i gais yn rhifyn diwethaf 'Clonc' yn gofyn am wybodaeth am yr athro Rees Davies, derbyniwyd gwybodaeth gan Huw Evans, Alltgoch, Cwrtnewydd yn ein cyfeirio at lyfr E.Lloyd Jones, 'Hanes Talgarreg'. Yno, ar dudalen 132, ceir adroddiad manwl am Rees Davies, prifathro Talgarreg 1887 – 1928. Ef oedd prifathro ieuengaf y sir pan ddechreuodd yn un ar hugain oed. Ac fe a dreuliodd y cyfnod hiraf yn brifathro, sef deugain mlynedd a chwe mis yn yr ysgol.

Yn anffodus collwyd cyfeiriad yr holwr; gobeithio y daw i gysylltiad â ni wedi darllen hwn.

Cadwyn Cyfrinachau



Enw: Dafydd Lloyd
Oed: 25
Pentref: Pumsaint
Gwaith: Mekanig amaethyddol gyda T. Alun Jones yn Nryslwyn.

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Chwarae gyda chi labrador fy anti Ceinwen.

Hoff raglen pan yn blentyn.
Sam Tân.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Gwneud *sumersault* yn yr Angel Aberystwyth.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
I fod yn barchus.

Y CD cyntaf a brynast di erioed?
Now 38.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Gweithio ar lwyfan olew.

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
Prynu peint i fi siŵr o fod.

Beth oedd y frawddeg bachu gorau a ddefnyddiaist erioed?
“Cer nôl tamed bach, ti'n tywlu gormod o wres!!!!”

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Pan rwyf gyda fy nheulu a ffrindiau.

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?
Rodney, o'r rhaglen “Only fools and horses”.

Pwy yw dy arwyr?
Ron Burgundy.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Pawb yn ‘nabod ei gilydd.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Tafarn y Dolaucothi ar gau.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?



Mynd i Las Vegas a sefyll yn y Ceaser Palace gyda fy ffrindiau.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Fy chwaer Elin pan mae'n gas!!

Pryd llefaist ti ddiwethaf?
Mewn angladd.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Llynedd ar ôl dod adre o Aber.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Yn y gwaith siŵr o fod.

Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?
Taw 3 pheint yfais nos Sadwrn, wrth mam a dad.

Pryd oeddet ti'n borcyn diwethaf o flaen person arall?
Yn Bournemoth ym mis Tachwedd pan ddaeth Arwel mewn i'r ystafell ymolchi.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Dyn mawr cryf. Ha ha ha.

Beth yw barn pobl eraill amdanat?
Lot o sbort, a joio cwmni pawb.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Gweithio ar fferm 100,000 o erwau allan yn Awstralia.

Ac yn bersonol?
Byw a cwca dros fy hun am 16 mis yn Awstralia.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n gryf?
Bwyta caws.

Ac i gadw'n heini?
Chwerthin a joio.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Wastad fflysio'r tŷ bach.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Ford Focus.

Beth yw dy hoff air?
“Hyd-y-bôn.”

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Fearne Cotton.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Indian.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Daily Star a llyfrau gwaith.

Beth yw dy hoff arogl?
Cinio cig oen mam.

Hoff gân ar dy ipod?
“Ruby” gydar Kaiser Chiefs.

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?
Carwyn Jenkins gyrrwr Mansel Davies.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
Bys bach fy nhroed dde.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Ciw pŵl.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni?
Chwarae'r gitâr drydan.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
Brian May yn chwarae'r gitâr drydan.

Ar beth y gwnest orwario fwyaf?
Gwesty yn Awstralia, tua \$500.

Y gwyliau gorau?
Magaluf gyda ffrindiau yn 2004.

Arferion gwael?
Mynd i dai pobl i gael coffi a bisgedi.

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?
Hedfan.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Wedi ffindo menyw fach neis gobeithio. Os oes diddordeb da rhywun, rhowch wybod!!!!

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Carys Roberts, Pont Creuddyn.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

7			8	3			
1	9	5	7				
	6	3				9	
		9	3	2	5	8	
	8					4	2
				2	6	4	1
	7		3				8

Atebion Swdocw mis

Chwefror: Llongyfarchiadau i Bethan Williams, 7 Heol-y-Gaer, Llanybydder, a diolch i bawb arall am gystadlu: Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder, Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder, Avril Williams, Y Fedw, Cwmann, Valerie Thomas, Galsfryn, Maesycrugiau, Mrs P Buckley, Bryntegwel, Llambled, Augusta Davies, Kingsmead, Llambled, Hannah Evans, Hafdre, Cwmann, J Morgan, Bryn-yr-Eglwys, Llambled, Bryn Hughes, Cwmere, Felinfach, Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder, J Williams, Lynden, Cwmffrwd a Ryan Doughty, Caris, Cwmann

4	3	5	6	8	7	2	1	9
2	8	1	3	4	9	7	5	6
7	9	6	5	1	2	4	8	3
8	2	4	1	3	5	6	9	7
1	6	9	7	2	4	5	3	8
3	5	7	9	6	8	1	2	4
6	1	2	4	9	3	8	7	5
9	7	8	2	5	6	3	4	1
5	4	3	8	7	1	9	6	2

Llanybydder

Diolch

Dymuna Elwyn Williams, Brynglas a'r teulu ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn ddiweddar yn eu profedigaeth o golli gwraig a mam annwyl. Diolch am yr holl gardiau, y rhoddion, y llythyrau, y galwadau ffôn a'r ymweliadau. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn.

18 oed

Llongyfarchiadau i Sioned Jacob, Glyncoed ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed yn ystod mis Chwefror. Hefyd mae Daloni Evans, Bryngwyn yn dathlu ei phen-blwydd hithau ddechrau mis Mawrth. Gobeithio i'r dathlu fynd yn iawn gyda'r ddwy!

Croeso Nôl

Bu Lowri Wilson, Glanrhyd a rhai o'i ffrindiau yn teithio'r byd o fis Medi 2009 tan diwedd Chwefror ac maent erbyn hyn wedi dychwelyd yn ôl adref. Croeso nôl i chwi i gyd – beth am gael rhai o'ch hanesion yn Clonc yn ystod y misoedd nesaf?

Silian

Llwyddiant

Cafodd Elliw Dafydd, Gwarffynnon lwyddiant mawr yn Eisteddfod Ysgol Gyfun Llambled a hithau hefyd oedd yr actores orau dan 16 oed yng Nghystadleuaeth Drama C.F.F.I. Ceredigion. Daeth drama Bro'r Dderi yn 5ed ar ddiwedd wythnos o gystadlu.

Hefyd, llongyfarchiadau i'w chwaer Hedydd Davies, ar ddod yn 2il yn y Llefaru Unigol yn yr Eisteddfod Ryng-Gol yn ystod mis Chwefror.

Cwmsychpant

Profedigaeth

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr a Mrs Dipple, Llain Rallt ar farwolaeth ei mam Ivy a fu'n byw gyda nhw yn ystod y mis.

Corsgoch

Eisteddfod Ryng-Gol

Llongyfarchiadau i Enfys Hatcher, Cefn Hafod ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod Ryng-Gol a gynhaliwyd yn Aberystwyth. Cafodd y wobr gyntaf am y Llefaru Unigol a chydradd drydydd yn y Cyflwyniad Theatr Digri. Da iawn ti.

Llanwnnen



Y Cyng. Emyr Lloyd, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanwnnen yn cyflwyno rhodd o deledu i Mr Aneurin Davies yn werthfawrogiad am ei wasanaeth yn Glerc i'r Cyngor am yn agos at ddeg mlynedd ar hugain. Hoffai Aneurin ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at y rhodd.



Miss Elsa Thomas yn trosglwyddo anrheg i Mrs Alice Davies ar ennill y marciau uchaf dros y flwyddyn yn Sefydliad y Merched Llanwnnen. Llongyfarchiadau.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Luned Medi Jones, Blaenwaun-ganol, sy'n ddisgybl Blwyddyn 7 yn Ysgol Gyfun Llambled, ar ennill y Tlws Cymraeg Iau ar ei chynnyg cyntaf yn Eisteddfod yr Ysgol Gyfun eleni. Y dasg oedd cyfansoddi darn o farddoniaeth ar y thema 'Tyfu'.

Da iawn ti!

Ysgol Llanwnnen

Mae'n braf cael cyhoeddi bod y 6 phlentyn a aeth o'r ysgol i glyweliadau Sioe Gynradd Eisteddfod yr Urdd 2010 wedi cael eu dewis i fod yn rhan o'r sioe, sef Ffion Jenkins, Cerian Jenkins, Sophie Herron, Twm Ebbsworth, Ellen Jones a Catrin Rosser. Maent wedi dechrau ymarfer yn barod ac edrychwn ymlaen at eich gweld ar y llwyfan mawr yn Llanerchaeron. Mwynhewch y profiad...!

Bu'r adran Iau ynghyd ag ysgolion Cwrtnewydd a Llanwenog ar daith addysgol ddydd Llun, Chwefror 8fed lawr i Gastell Henllys. Gwelsom sut roedd y Celtiaid yn byw flynyddoedd yn ôl, ond rydym i gyd yn ddiolchgar ein bod yn byw yn yr oes yma gyda chartrefi clyd, a thrydan ac ati! Diolch i Ysgol Llanwenog am drefnu'r daith arbennig yma.

Tra roedden ni i gyd yn ymlacio dros wyliau hanner tymor bu ein Pennaeth Mr Evans ynghyd â Mrs Pat Jones o Ysgol Gyfun Llambled yn treulio'r wythnos gyfan yn Lesotho yn Ne Affrica. Bu'r ddau yn dysgu nifer o wersi iddynt am Gymru. Rydym wedi gefeillio ag ysgol yn Lesotho. Edrychwn ymlaen at gael mwy o'r hanes yn Clonc y mis nesaf.

Bu nifer o blant yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd. Mentrwyd eleni i'r byd Dawnsio Gwerin a chafwyd gwisgoedd newydd sbon wedi eu gwneud gan Felin Teifi. Roeddent yn edrych yn smart iawn ar y llwyfan.

Llongyfarchiadau

Dymuniadau gorau i Mrs Mary Evans, 1 Bro Cadarn ar ddod yn hen fam-gu i Olivia Marie yn Westerham, Kent.

Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,
Llambled, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfriliw.

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob
gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu
yn eich cartref*

W.D. Lewis a'i Fab

Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont,
Llanbedr Pont Steffan

*Am holl fwydydd a nwyddau
amaethyddol, cysylltwch â ni.*

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford, Llambled

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn ar
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



*Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach*

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

Ysgol Cyfun Llanbedr Pont Steffan



Nos Lun, Rhagfyr 7fed yn Neuadd Ciliau Aeron, cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus dros ben gan y Gerddorfa Linynnol Uwchradd. Rhaid llongyfarch Tomos Harris Bl 13, Llion Thomas Bl 9, Hannah James a Jonah Choi Bl 7 am roi o'u hamser bob nos Lun i ymarfer ar gyfer y cyngerdd. Roedd eu perfformiadau yn raenus iawn. Roedd Tomos hefyd yn un o'r unawdwyd ar y noson. Diolch hefyd i Lani Cossins Bl 13 am gyfeilio mor dda i'r gerddorfa.

Ar Ragfyr 10fed bu aelodau o flwyddyn 9 yn cynorthwyo Canolfan y Bont drwy ganu carolau yn y dref. Cafwyd prynhawn hwylus iawn yn codi arian ac yn cynorthwyo disgyblion y ganolfan. Buont hefyd yn canu yn eu gwasanaeth Nadolig blynyddol. Diolch iddynt am eu parodrydd i helpu. Carys Evans, Bethan Williams, Daloni Jones, Nicola Jones, Sofia Morris, Kayleigh Moore, Stacey Lamport, Rhian Jones, Gwawr Hatcher, Sophie Jones, Lauren Jones, Sian Elin Williams, Lauren James, Delor Evans, Meleri Davies, Elinor Jones, Yvonne Hughes, Nadine Roderick, Alice Davies, Amanda Hunt, Rhianedd Evans.

Bu Mr Emyr Wynne Jones yn cynnal clyweliadau yn ddiweddar ar gyfer Côr y Tair Sir. Dyma'r disgyblion a fu'n perfformio:- Megan Holt, Fiona Messer, Sophie Hannaway, Bethan Hardy, Jemma O'Kane, Althaea Sandover, Shane Bear.

Llongyfarchiadau i Megan Holt o flwyddyn 12 ac i Althaea Sandover o flwyddyn 11 sydd wedi cael eu dewis i fod yn aelodau o'r Côr. Fe fydd Megan ac Althaea yn ogystal ag Aled Wyn Thomas, Chris Ashton ac Elliw Dafydd sydd eisoes yn aelodau, yn dilyn cwrs corawl dwys, ac yn perfformio ym Mharis. Pob hwyl iddynt.

Ymwelodd Lynne Plowman â'r ysgol ym mis Ionawr ac fe fu'n gweithio gyda Lani Cossins o flwyddyn 13 yn rhan o gystadleuaeth Cyfansoddwr Ifanc Dyfed. Dymunwn bob lwc i Lani yn y gystadleuaeth.

Llongyfarchiadau i Aled Wyn Thomas a Chris Ashton o flwyddyn 13 ac i Bethan Hardy o flwyddyn 11 sydd wedi derbyn gwahoddiad i berfformio mewn cyngerdd yn Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd ar Fawrth y 1af. Fe fydd y tri yn aelodau o gôr o 300 o bobl ifanc o Gymru gyfan ac fe fydd y côr yn perfformio'r darn 'Dewi Sant' gan Karl Jenkins gyda Cherddorfa Genedlaethol y BBC. Pob hwyl iddynt gyda'r ymarferion.

Yn ystod gwyliau'r hanner tymor, bu'r disgyblion canlynol ar gwrs preswyl yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog fel aelodau o Fand Chwyth a Cherddorfa Linynnol Ceredigion:- Caroline Roberts Ffliwt, Gareth Davies Sacsoffôn, Llion Thomas Ffidil.

Bu'r gerddorfa yn ymarfer yn galed yn ystod y tridiau ond roedd yna hefyd ychydig o amser hamdden er mwyn mwynhau cyfleusterau gwyh y campws.

Yn dilyn y cwrs, cynhaliwyd cyngerdd mawreddog yn Neuadd Fawr yn Aberystwyth ar Chwefror 23ain.

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn Theatr Felinfach yn

perfformio mewn gweithdai canu ac actio yn rhan o glyweliad ar gyfer Sioe Gerdd Hŷn Eisteddfod yr Urdd 2010 yn Llanerchaeron - 'Plant y Fflam'. Arhoswn yn eiddgar i glywed pwy fu'n llwyddiannus.

Bu nifer o ddisgyblion yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth farddoniaeth genedlaethol, Bust-a-rhyme. Bu rhaid i'r disgyblion gyfansoddi telyneg ac fe gyhoeddir llyfr Bust-a-rhyme Ireland and Wales sy'n cynnwys cerddi'r beirdd ifanc. Dyma enwau'r buddugwyr :- Tomos Jones, Rhiannon Davies, Erin George, Elin Evans, Siôn Williams, Llŷr Roach, Lowri Jones, Jac Jones, Alis Bellan, Louis Andreas, Naomi Chalder, Rhian Davies, Harry Newton, Hannah James, Kelly Morgans, Ammie Inman, Emma Lewis, Beth Davies, Stephanie, Davies, Robert Davis, Justin Jones, Arwel Jones, Niamh Marshall, Betsan Jones, Dale Davies, Danielle Rose, Kirsty Owens, Sara Thomas, Casselin Williams, Kelly Jones, Rhodri Hatcher, Alys Eadon, Meinir Davies, Stephen Hyde a Caryl Griffiths.

Bu aelodau'r chweched ynghyd â'u hathrawon ar daith i Stratford. Cafwyd diwrnod blinedig ond buddiol tu hwnt yn ymweld â chartref William Shakespeare yn ogystal â'i fedd yn Eglwys Holy Trinity. Bu'r disgyblion hefyd yn cymryd rhan mewn gweithdy drama gyda'r Royal Shakespeare Company a gwelwyd perfformiad grymus a thrawiadol yr RSC o Twelfth Night. Diolch i Mrs Phillips a Mrs Bolton-Richards am drefnu'r diwrnod.

Bu disgyblion blwyddyn 7 ac 8 yn Theatr Mwldan yn gweld y ffilm A Christmas Carol. Roedd y ffilm yn arbennig o dda ac roedd yn brofiad gwefreiddiol gwisgo'r sbectol 3-D.

Roedd hi'n braf croesawu myfyrwyr ac athrawon o'n hysgol gyfnewid yng Ngogledd Sweden i Lanbedr Pont Steffan. Roedden nhw'n lletya gydag aelodau o Flwyddyn 13. Treuliwyd amser yn ymweld â Llanbed a'r ardal gyfagos ac fe gafodd yr ymwelwyr amser difyr yng nghwmni'r teuluoedd lleol. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r teuluoedd a roddodd o'u hamser i groesawu a lletya'r myfyrwyr.

Dychwelodd y sgiwyr o'u taith sgïo i Zel am See yn Awstria. Cafwyd digon o eira a llawer o hwyl. Diolch i'r Adran Ymarfer Corff am drefnu'r daith.

Llongyfarchiadau i'r canlynol a fu'n rhedeg yn Rasys Traws Gwlad Ceredigion: Blwyddyn 7: Caitlin Page (2ail), Ffion Quan (3ydd), Rebecca McEnery (12fed), Chanelle McMullan (14eg). Blwyddyn 8/9: Rhian James (7fed), Ceris Baker (15fed). Blwyddyn 10/11: Caitlin Theodorou (9fed), Cara Jones (14eg), Joseph Fisher (11eg) Gethin Jones (12fed).

Cynhaliwyd Rasys Traws Gwlad Dyfed yn Oakwood ar Chwefror 2ail. Dyma'r canlyniadau :- Caitlin Page Bl 7 - 6ed, Ffion Quan Bl 7 - 13eg, Rhian Jones Bl 9 - 19eg.

Llongyfarchiadau mawr i'r merched a phob lwc iddynt ym Mhencampwriaeth Traws Gwlad Cymru yn Aberhonddu ar Chwefror 27ain.

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow, Llambled.

01570 423955

WILLIAMS CONTRACT SERVICES

Peiriannau Hirio, Peirianwyr Cyffredinol, Gwaith Sylfaen, Menage, Tirlunio, Garddio, Ffensio, Adeiladu a Gwaith Cynnal a Chadw

Symudol: 07896747951
Ffôn: (01559)362575
Ffacs: (01559)363555

Tŷ Mari, Heol Horeb, Llandysul SA44 4JN
e-bost: sales@williamscontractservices.co.uk

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921
07867 945174

CANOLFAN ADDURNO

AA
A

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerau, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allwedd i pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled
01570 422893 / 422175

Clwb Clonc

Mawrth 2010

£25 rhif 246: Ffion Jenkins, Tyllwyd, Maestir, Llambled.
£20 rhif 195: Mrs Aerwen Griffiths, Pengarn, Llanfair Clydogau.
£15 rhif 11: Myfanwy Bryce, 20 Penbryn, Llambled.
£10 rhif 59: Mrs Ray Davies, Crug, Llanybydder.
£10 rhif 443: Mrs Dorothy Thomas, Hendrerhys, Llanarth
£10 rhif 481: Dai Williams, Dolaugwyrddion - Isaf, Pentrebach

Rhifyn mis Ebrill
Yn y Siopau
Ebrill 1af

Erthyglau i law erbyn
Mawrth 18fed
Newyddion i law erbyn
Mawrth 22ain

Neuadd yr Eglwys Llanwnnen
Cynhelir cyfarfod cyhoeddus a phaned o goffi er mwyn trafod dyfodol Neuadd yr Eglwys, Llanwnnen ar
Nos Lun, Mawrth 29ain am 7:30 yn Neuadd yr Eglwys.
Croeso Cynnes i bawb.

Cawl a Chân
Yng Ngwesty'r Grannell,
Llanwnnen

Nos Lun, Mawrth 8fed
am 7:00 y.h.

Artistiaid:

Plant Ysgol Llanwnnen, a Lleisiau Bro Eirwyn
Llywyddion:
Teulu Ffynnonfair, Pentrebach.
Mynediad drwy docyn yn unig:
£7.00

Manylion pellach oddi wrth:
Aneurin Davies 422608 neu
Emyr Lloyd 481302
Yr Elw tuag at yr Urdd yn lleol a Phwyllgor Lles Llanwnnen.



Cwpaned, Clonc a Chacen!

Mae'n brynhawn dydd Sadwrn, mae'n oer, mae'n glawio neu efallai'n bwrw eira! Mae'r teulu'n gwylio rygbi ar y teledu. Nawr te, beth am dreulio prynhawn yn nhawelwch a gwres y gegin, yn creu, paratoi a choginio. Mae cacen bob amser yn gymar da i gwpaned o de a chlonc! Perffaith ar gyfer te'r Sadwrn neu'r Sul.

Felly, crynhowch y cynhwysion, gwisgwch eich ffedog a chynheswch y ffwrn. Gobeithio y bydd digon o help i olchi'r llestri os y bydd 'na gacen i de.

Mwynhewch!

Gareth.

Dyma ddwy rysait hawdd iawn gan fod y cyfan yn un. Ychydig o bowdwr pobi yw'r gyfrinach, ond gofawch beidio â throï'r gymysgedd yn ormodol.

Cacen Oren a Siocled

Cynhwysion

- 175 gm 6oz o fenyn wedi'i feddalu.
- 175 gm 6oz o siwgr caster
- 175 gm 6oz o flawd codi
- 1 llond llwy de o bowdwr pobi
- Croen un oren
- 3 ŵy
- 100 gm 4oz o sglodion siocled (chocolate chips)

Addurn

- 75 gm 3oz o fenyn wedi'i feddalu
- 2 llond llwy de o groen oren wedi'i falu'n fân
- 175 gm 6oz o siwgr eisin
- 1 llond llwy fwrdd o sudd oren

Dull

1. Trowch y ffwrn i 180° C, 350° F, Nwy 4. Rhowch y siwgr, meny, a'r fflwr mewn powlen, ychwanegwch y powdwr pobi, yr wyau a'r croen oren.
2. Chwisgwch gyda peiriant llaw nes bod y cyfan yn llyfn. Plygwch y siocled iddo a llenwch dun 2 bwys, wedi'i leinio. Pobwch yn y ffwrn am 45 munud a gadewch i oeri.
3. Cymysgwch y meny, croen oren, y sudd a'r siwgr eisin i greu ansawdd llyfn. Defnyddiwch i orchuddio wyneb y gacen.



Sgwariau Coffi a Chnau Pecan

Cynhwysion.


- 175 gm 6oz o fenyn wedi'i feddalu
- 175 gm 6oz o fflwr codi
- 175 gm 6oz o siwgr muscavado ysgafn
- ½ llond llwy de o bowdwr pobi
- 3 ŵy
- 2 lond llwy fwrdd o goffi du oer
- 1 llond llwy fwrdd o laeth
- 75 gm 3 oz o gnau pecan wedi'u darnio

Addurn

- 175 gm 6oz o siwgr eisin
- 2 llond llwy fwrdd o goffi du oer
- Ychydig o gnau pecan wedi'u darnio

Dull

1. Trowch y ffwrn i 180° C, 350° F, Nwy 4. Rhowch y meny, a'r siwgr mewn powlen ac ychwanegwch y blawd, powdwr pobi, wyau a'r coffi. Cymysgwch â pheiriant llaw nes bod y cyfan yn feddal.
2. Plygwch y cnau i mewn i'r gymysgedd a llenwch dun pobi 8 x 9 modfedd. Gwnewch yr wyneb yn wastad.
3. Pobwch am tua 50 munud a gadewch i oeri.
4. Cymysgwch gynhwysion yr addurn i greu ansawdd eisin a defnyddiwch ar dop y gacen. Addurnwch â chnau pecan a thorrrwch yn sgwariau.



Colofn Dylan Iorwerth

Chwyldro addysg yn taro Llanbed

Ro'n i'n cerdded ar Bumlumon y diwrnod o'r blaen, lle'r oedd y llynnoedd wedi rhewi o hyd a haenen o iâ dros y llwybrau.

Er hynny, hyd yn oed ar fynydd ucha' gorllewin Cymru, roedd hi'n dechrau dadmer ac, o dan y rhew, roedd modd gweld y dŵr yn symud. Er bod yr wyneb yn galed o hyd.

Mae hynna'n debyg iawn i sawl elfen o waith newyddiadurwr fel fi. Yn aml, rydech chi'n gwybod bod yna rywbeth mawr yn digwydd, ond mae'n anodd iawn ei brofi.

Ers tro, ryden ni yn Golwg wedi bod yn trio cadw llygad ar yr hyn sy'n digwydd ym maes ysgolion, nid dim ond yn ysgolion bach y wlad ond yn yr ysgolion uwchradd hefyd.

Mae wedi bod yn amlwg ers tro fod gan rywun yn rhywle syniadau mawr ac roedd yna arwydd bob hyn a hyn fod pethau'n dechrau newid. Dim ond yn awr y mae'r cyfan yn dod yn amlwg.

A, bellach, fe ddaeth yn glir fod gan ardal Clonc ei rhan yn y chwyldro mawr. Does dim amheuaeth fod byd addysg yn yr ardal yma yn newid yn sylfaenol. Hyd



yn hyn, ychydig o bobol sy'n sylweddoli hynny.

Fel yn Nhregaron a Llandysul, mae yna fwrriad bellach i gael un ysgol ar gyfer pob oed yn Llanbed – un sefydliad i gynnwys plant tair a phedair oed a phobol ifanc tros eu deunaw.

Cyn cau ysgol fach, mae yna broses hir a chymhleth i'w dilyn ac, o leia', angen i esgus ymgynghori. Er bod newid fel hyn yr un mor ddramatig, does dim rheolau o'r fath.

O ganlyniad, mae'r cyfan wedi digwydd yn gymharol dawel a sydyn heb fawr o gyfle i neb drafod na gwrthwynebu. Doedd dim sôn am hyn cyn y Nadolig, bellach mae bron â bod yn ffaith.

Mae yna ddadleuon tros y syniad. Fel y mae, mae ysgolion uwchradd yn cael eu gyrru i gydweithio fwy fwy gyda cholegau ac, mewn rhai llefydd, mae'r chweched dosbarth ei hun dan fygythiad.

Mi fyddai hynny'n colli'r rhinweddau arbennig sydd gan ysgolion uwchradd, o ran datblygu'r disgyblion, o ran cynnig diwylliant Cymraeg ac o ran cyfraniad i'r gymdeithas. Felly, mi all cryfhau'r ysgolion fod yn beth da.

Addysg, addysg, addysg ynte arian, arian, arian?

Ond, wrth gwrs, y peryg ydi mai arian sy'n gyrru'r cyfan, a fyddai hynny ddim yn iawn. Mi soniodd y bardd T. S. Eliot am y peryg o wneud y pethau iawn am y rhesymau anghywir.

Os oes yna newid mawr fel hyn, mae'n hanfodol fod yna werth yn dod ohono i'r disgyblion a'r gymdeithas. Does dim pwynt uno ysgolion mewn enw a chadw popeth yr un fath.

O feddwl am y dŵr yna'n llifo o dan wyneb y rhew, mae'n eitha' sicr bod gan rywun tua Chaerdydd – neu Aberaeron – eu llygaid ar newid pellach. O gael un ysgol pob-oed, mi allai hynny fod yn haws.

Ers tro, mae rhai pobol ym myd addysg wedi ffansio'r syniad o rannu plant i mewn i oeddrannau gwahanol – 3-7, 8-13, 14-19. Os meddylwch chi am rai o newidiadau'r blynyddoedd diwetha', maen nhw'n symud i'r cyfeiriad hwnnw.

Efallai bod gwerth yn hynny. Efallai y byddai'n gwneud mwy o sens i rannu addysg i gyfnodau fel yna ... efallai y bydd modd dod â gwasanaethau eraill i mewn ... ond mae angen ystyried yn iawn a gwneud yn siŵr bod unrhyw drefn newydd yn cynnig y dewis gorau.

Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol – ac ysgolion a cholegau – yn gorfod ymateb yn gyflym i bwysau ariannol o gyfeiriad y Llywodraeth. Er mwyn cael arian i gefnogi newidiadau, mae'n rhaid symud yn glou.

Y peryg mewn sefyllfa felly ydi fod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar frys i ateb galw'r funud a hynny'n creu problemau at y dyfodol.

Wyddon ni ddim digon eto i wrthwynebu na chefnogi ond mi allwn ni alw ar i'n cynrychiolwyr wneud y dewisiadau iawn, am y rhesymau iawn ac ar ôl ystyried digon.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Mynd amdani - Canlyniadau'r Cylch




Cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambod ar ddydd Iau, Chwefror 25ain yn Ysgol Gyfun Llambod ac yn wir bu yn ddiwrnod hir. Bu'r rhagbrofion yng Nghapel Brondeifi yn ystod y bore. Beirniaid am y dydd oedd Canu: Eilyr Wyn Thomas ac Eiry Jones. Llefaru: Eiry Jenkins. Dawnsio Disgo: Catherine Young. Dawnsio Gwerin: Buddug Thomas. Cyfeilyddion y dydd oedd Mrs Margaret Jones a Mrs Carys Lewis. Cafodd pob un ohonynt wres eu traed drwy gydol y dydd!!

Tro Ysgol Ffynnonbedr ac Adran Llambod oedd trefnu'r Eisteddfod a diolch i Llinos Jones a'r criw am eu gwaith trylwyr yn paratoi. Diolch i staff, rhieni a phawb a fu'n eu helpu drwy gydol y dydd. Cyflwynodd Janet Evans yn absenoldeb Huw Jenkins ein llywydd sef cyn-ddirprwy'r ysgol Mr Gareth Morgans. Cafwyd araith bwrpasol iawn ganddo. Talwyd y diolchiadau gan Miss Heddwen Davies, Is-gadeirydd Cylch Llambod. Dymuniadau gorau i holl blant fydd yn cystadlu yn Eisteddfodau Rhanbarth yn ystod mis Mawrth. Dyma ganlyniadau'r dydd:

Unawd Bl. 2 ac Iau: 1. Joseph Saunders, Ffynnonbedr; 2. Elan Jones, Ffynnonbedr; 3. Eira Holland Thomas, Llanybydder a Nia Beca Jones, Ffynnonbedr. Llefaru Bl. 2 ac Iau: 1. Sioned Fflur Davies, Ffynnonbedr, 2. Bethany Wright, Ffynnonbedr. 3. Joseph Saunders, Ffynnonbedr. Unawd Cerdd Dant Bl. 2 ac Iau: 1. Elan Jones, Ffynnonbedr. Llefaru Bl. 2 ac Iau [D]: 1. Mariyyah Abdul Halim, Ffynnonbedr. 2. Alexsander Szeterlak, Ffynnonbedr. 3. Liam Evans, Ffynnonbedr. Unawd Bl. 3 a 4: 1. Charlotte Saunders, Ffynnonbedr; 2. Lisa Elan Evans, Carreg Hirfaen. 3. Elin Davies, Cwrtnewydd. Llefaru Bl. 3 a 4: 1. Tomos Jones, Adran Llambod. 2. Elin Davies, Cwrtnewydd. 3. Lisa Elan Evans, Carreg Hirfaen a Cerys Pollock, Cwrtnewydd. Unawd Cerdd Dant Bl. 3 a 4: 1. Elin Davies, Cwrtnewydd. Llefaru Bl. 3 a 4 [D]: 1. Sam Brummeld, Ffynnonbedr. 2. Lewis Jarvis-Blower, Llanwnnen. Unawd Bl. 5 a 6: 1. Marek Owen, Carreg Hirfaen. 2. Meirion Siôn Thomas, Adran Llambod. 3. Jasmine Davies, Llanllwni. Llefaru Bl. 5 a 6: 1. Meirion Siôn Thomas, Adran Llambod. 2. Briallt Williams, Cwrtnewydd. 3. Twm Ebbsworth, Llanwnnen ac Iwan Evans, Cwrtnewydd. Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6: 1. Meirion Siôn Thomas, Adran Llambod. Llefaru Bl. 5 a 6 [D]: 1. Julianna Barker, Carreg Hirfaen. 2. Kaydee Evans, Ffynnonbedr. 3. Sophia Barker, Carreg Hirfaen. Unawd Alaw Werin Bl. 6 ac Iau: 1. Marek Owen, Carreg Hirfaen. 2. Meirion Siôn Thomas, Adran Llambod. 3. Charlotte Saunders, Ffynnonbedr a Rhys Davies, Cwrtnewydd. Unawd Chwythbrennau: 1. Rhiannon Newitt, Y Dderi. 2. Ceri Pickett, Y Dderi. Unawd Llinynnol: 1. Julianna Barker, Carreg Hirfaen. 2. Arianna Morris, Y Dderi. Unawd Piano: 1. Rhiannon Newitt, Y Dderi. 2. Alpha Jones, Cwrtnewydd. Parti Llefaru [D]: 1. Ysgol Ffynnonbedr. Grŵp Llefaru i Adrannau: 1. Adran Llambod. 2. Adran Bro Gwenog. Grŵp Llefaru: 1. Carreg Hirfaen. 2. Cwrtnewydd. 3. Llanllwni. Parti Unsain i ysgolion o dan 50 o blant: 1. Cwrtnewydd. 2. Llanwnnen. 3. Llanllwni. Parti Unsain i ysgolion a dros 50 o blant: 1. Carreg Hirfaen. 2. Y Dderi. 3. Llanybydder. Parti Deulais: 1. Ffynnonbedr. Parti Bl. 6 ac Iau (Adran): 1. Parti Jac, Adran Llambod. 2. Parti Daniel, Adran Llambod. Grŵp Cerddoriaeth Creadigol: 1. Llanwnnen. Ymgom: 1. Cwrtnewydd. 2. Llanwenog. 3. Carreg Hirfaen. Ymgom i ddysgwyr: 1. Ffynnonbedr. Dawnsio Disgo Unigol Bl. 6 ac Iau: 1. Charlotte Saunders, Ysgol Ffynnonbedr. 2. Iwan Evans, Cwrtnewydd. 3. Sally Rees, Y Dderi. Grŵp Dawnsio Disgo: 1. Ffynnonbedr. 2. Y Dderi. 3. Carreg Hirfaen. Dawns Greadigol Bl. 6 ac Iau: 1. Cwrtnewydd. Dawnsio Gwerin Bl. 4 ac Iau: 1. Llanwnnen, 2. Y Dderi. 3. Ffynnonbedr. Dawnsio Gwerin Bl. 6 ac Iau i ysgolion hyd at 100 o blant: 1. Llanwnnen. Dawnsio Gwerin Bl. 6 ac Iau i ysgolion â dros 100 o blant: 1. Ffynnonbedr. 2. Y Dderi. Dawns Cyfrwng Cymysg Bl. 6 ac Iau: 1. Ffynnonbedr. Cân Actol: 1. Llanllwni. Côr Bl. 6 ac Iau i Adrannau: 1. Adran Llambod. Côr i ysgolion hyd at 150 o blant: 1. Carreg Hirfaen. 2. Llanwenog. Côr i ysgolion a dros 150 o blant: 1. Ffynnonbedr.

Dyma'r canlyniadau uwchradd: Unawd Merched Bl. 7-9: 1. Meleri Davies, Aelwyd Llambod. 2. Lowri Elen, Aelwyd Llambod. 3. Gwawr Hatcher, Aelwyd Llambod. Llefaru Unigol Bl. 7-9: 1. Lowri Elen, Aelwyd Llambod. 2. Gwawr Hatcher, Aelwyd Llambod. 3. Aron Dafydd, Aelwyd Llambod. Unawd Bechgyn Bl. 7-9: 1. Aron Dafydd, Aelwyd Llambod. Grŵp Llefaru Bl. 7, 8 a 9: 1. Ysgol Gyfun Llambod. Cyflwyno Alaw Werin Bl. 7, 8 a 9: 1. Gwawr Hatcher, Aelwyd Llambod. 2. Lauren Jones, Aelwyd Llambod. 3. Meleri Davies, Aelwyd Llambod. Unawd Piano Bl. 7-9: 1. Gwawr Hatcher, Aelwyd Llambod. 2. Lowri Elen, Aelwyd Llambod. Unawd Cerdd Dant Bl. 7-9: 1. Lowri Elen, Aelwyd Llambod. 2. Gwawr Hatcher, Aelwyd Llambod. Llefaru Unigol Bl. 10 a dan 19 oed: 1. Elliw Dafydd, Aelwyd Llambod. 2. Sioned Davies, Ysgol Gyfun Llambod. 3. Lowri Pugh-Davies, Ysgol Gyfun Llambod. Unawd Merched Bl. 10 a dan 19 oed: 1. Elliw Dafydd, Aelwyd Llambod. Unawd Bechgyn Bl. 10 a dan 19 oed: 1. Aled Wyn Thomas, Aelwyd Llambod. Ymgom Bl. 7, 8 a 9: 1. Gwawr a Sian Elin, Ysgol Gyfun Llambod. 2. Grŵp Aron, Ysgol Gyfun Llambod. 3. Grŵp Lauren, Ysgol Gyfun Llambod. Deuawd Bl. 10 a dan 19 oed: 1. Aled Wyn Thomas a Chris Ashton, Ysgol Gyfun Llambod.



APELIO AM STIWARDIAID

Gydag Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yn ymweld â Llanerchaeron rhwng Mai 31 a Mehefin 5 a'r cyfnod paratoi eisoes yn cyrraedd ei anterth, mae Ceredigion yn edrych ymlaen at groesawu 100,000 o ymwelwyr i'r sir.

Bydd maes prifwyl yr ieuencid ar diroedd bras Llanerchaeron gyda'r stondinau a'r arddangosfeydd yn llenwi'r parcdir gerllaw'r plasty a'r fferm. Yn ogystal â bwrwm y cystadlu yn y pafiliwn, bydd llwyfannau perfformio o amgylch y maes, theatr stryd a gweithgareddau o bob math.

Yn ôl yr arfer mae'r Eisteddfod yn edrych am wirfoddolwyr i glacio a stiwardio mewn amryw o bebyll amrywiol ar hyd y Maes gan gynnwys y rhagbrofion a'r Prif Bafiliwn. Mae gwirfoddolwyr yn rhan ganolog o weithgaredd yr Eisteddfod ac fel diolch am eu cymorth caiff pob gwirfoddolwr docyn am ddim i'r maes gyda'r rheiny sy'n fodlon gweithio am ddau gyfnod yn cael tocyn bwyd yn rhad ac am ddim hefyd.

Dywed Aled Siôn, Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, "Mae lleoliad yr Eisteddfod eleni yn gyffrous ynddo i hun ac rydym fel Mudiad yn edrych ymlaen at gael cynnal yr Eisteddfod mewn lle cyn mor brydferth.

"Unwaith eto, rydym yn gofyn yn garedig iawn am bob cymorth gan drigolion Ceredigion a'r ardaloedd cyfagos i sicrhau fod hon yn Eisteddfod lwyddiannus a threfnus. Mae ymdeimlad o gyffro a gwefr eisoes ar droed yn yng Ngheredigion wrth i'r Eisteddfod agosáu ac edrychwn ymlaen at wyl i'w chofio yma ym mis Mai."

Am fwy o wybodaeth am yr Eisteddfod ewch i www.urdd.org. I gysylltu ynglŷn â gwirfoddoli cysylltwch â stiwardio@urdd.org, clercio@urdd.org neu ffoniwch 01678 541015.

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref



Torri a sychu, steilo a lliwio,
cwlio a gosod gwallt ar gyfer
achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol.
Ffoniwch: 07738 492613
Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.

Cefn-hafod

Gorsgoch

01570 434238



Dewch i fwynhau
mewn awyrgylch
Gymreig a chartrefol. Cewch
ddewis eang o fwyd cartref blasus
a chwrw da. Cinio dydd Sul o 12
tan 2:00y prynhawn hefyd.

Croeso cynnes oddi wrth
Geraint, Eiddwen a'r teulu.

Arbenigwyr mewn bariâu
symudol at unrhyw achlysur
allanol a dawnsfeydd ysgubor.

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Marek Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

01570 423135

07811917799 /

07968821035

mwnciffwnci@hotmail.com

COMPASS OFFICE SUPPLIES



Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

01570 422955

01570 422232



Torriad
Taclus

Mae Torriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Llanfair Clydogau

Cyhoeddi Llyfr



Alan a Sally Leech, Tan yr Esgair, Llanfair adeg lansio eu llyfr newydd *Struggle for Survival in the Cardiganshire Hills*.

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth sydyn Johnny Williams, neu Johnny Bayliau fel y byddai pawb yn ei adnabod. Un o gymeriadau mwyaf hoffus yr ardal ac un a oedd wedi gwasanaethu fel cynghorwr sir i Lanfair dros lawer o flynyddoedd. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Eleri, ei ferch, ac Arwyn Pentre, ei feibion Bleddyn, Andrew a Gethin, yr wyrion a'r gorwyrion a'r teulu oll. Bydd bwch mawr ar ei ôl yn yr holl ardal.

Gwellhad Buan

Trist iawn oedd clywed am ddamwain a ddigwyddodd i David Taylor, Tŷ Capel, pan gafodd ddolur difrifol ar ei gefen. Cafodd fynd i Ysbyty Bronglais, ond erbyn hyn mae wedi cael ei symud i Gobowen lle mae'n debygol o gael triniaeth. Rydym yn dymuno pob lwc iddo a gwellhad buan.

Dathlu Dydd San Ffolant

Nos Sadwrn, Chwefror 13eg, addurnwyd y neuadd yn rhamantus mewn coch a du gyda goleuadau isel i groesawu wyth deg o bobol i bryd arbennig o fwyd pedwar cwrs wedi ei baratoi gan wragedd pwyllgor y neuadd. Pwrpas y noswaith oedd codi arian at Sioe Frenhinol Llanellwedd, a phleser mawr oedd croesawu llywydd y sioe eleni, sef Mr Dai Jones Llanilar yn ŵr gwadd a Mrs Olwen Jones ei wraig. Ar ôl y croeso gan Dai Jones, Llanfair Fach fe drosglwyddwyd y noson i ddwylo medrus Mr Gwyn Davies, Godre'r Garth, Llanddewi. Ar ôl y gwledda, cawsom anerchiad diddorol a doniol gan Dai. Uchafbwynt arall y noson oedd cyfraniad John Glant gyda'i ganu bendigedig. Diolch i'r ddau ohonynt am wneud y noson yn un mor gofiadwy. Ddiwedd y noson fe dynnwyd y raffl ac i ddilyn daeth yr ocsiwn. Diolch i bawb a gyfrannodd eitemau ac i bawb a brynodd docynnau neu eitemau yn yr ocsiwn.



Bu'n noswaith bleserus a llwyddiannus dros ben. Trosglwyddwyd siec am £1000 i Sioe'r Cardis (RWAS) a dderbyniwyd gan Dai Jones, Llanilar. Bydd gweddill yr arian yn mynd i gronfa adnewyddu'r neuadd. Diolch i bawb ar y pwyllgor a roddodd gymaint o'u hamser

i sicrhau llwyddiant y noson. Rydym yn lwcus dros ben yn Llanfair fod cymaint o bobol yn fodlon rhoi o'u talentau i helpu achosion da.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Seb Lee, Tŷ Nant, ar ennill coron Eisteddfod Ysgol Gyfun Llanbed. Mae Seb yn dosbarth 6, yn ddirprwy brif fachgen ac yn gobeithio mynd ymlaen i astudio meddyginaeth. Teitl ei gerdd oedd *Shadows*, a'i ysbyrdoliaeth oedd y ddacargryn yn Haiti. Enillodd y wobr gyntaf hefyd yn y gystadleuaeth siarad cyhoeddus. Da iawn, Seb.

Pleser oedd clywed fod Ffion Quan, Sŵn yr Afon, sy'n perthyn i glwb rhedeg Sarn Helen, wedi bod yn rhedeg yn ei ras gyntaf yn Aberhonddu ac wedi gwneud cystal er ei bod llawer ifancach na'r rhan fwyaf o'r rhai eraill a oedd yn cystadlu. Edrychwn ymlaen at bethau da yn y dyfodol.

Cellan

Eira



Dyma rai lluniau o'r eira - cymdigion Ffosyffin, Derrymore a Felindre!



Gwellhad Buan

Cofion cynnes i Esme Payne, Lanyon a gwellhad buan iddi.

80 oed

Llongyfarchiadau i Mrs Ywen Daniels ar ddathlu ei phen blwydd yn 80 oed.

Cartref Newydd

Pob hwyl i Alwen a Simon yn eu cartref newydd, Awel Teifi. Gallwch ymlacio nawr wedi'r holl waith.

90 oed

Pen blwydd hapus iawn i Mali Stubberfield, 11 Maes Meillion sydd wedi cyrraedd 90 oed - llongyfarchiadau mawr i chi a phob hwyl â'r dathlu!

85 oed

Pob hwyl hefyd i Marion Yates-Smith, Llys Gwyn sy'n dathlu ei phen blwydd yn 85 oed.

Cydymdeimlad

Estynnwn gydymdeimlad mawr â theulu Glannantcoy, a Cnwcyfallen wedi marwolaeth sydyn Johnny Williams gynt o Bayliau, un o gymeriadau hoffus iawn y pentref.

Canu Calennig

Bu dau o blant bach y pentref yn brysur yn canu calennig ddydd Calan o gylch y pentref. Llwyddodd Eira a Mabon Harvey, Glanteifi gasglu £90 tuag at Ambiwylans Awyr Cymru gyda'u cynorthwywyr Owain Harvey, Glanteifi a Lena a Lowri Daniel, Llys Barcud. Bydd yr arian yn cael ei drosglwyddo i Mrs Ros Jones, Blaenhathren ar ran yr Ambiwylans Awyr.

Teithio

Pob hwyl i Lowri Daniel sy'n mwynhau ei hun yn Melbourne ar ei thaith o ddeufis o amgylch Siapan ac Awstralia. Bydd yn barod i ddechrau ar ei gwaith fel cyfreithwraig yng nghwmni Cyfreithwyr Geldards, Caerdydd. Gobeithio y bydd yn joio ei chyfnod yn teithio ac yn gwneud y mwyaf o'r profiadau!

CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2010

Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 4 Mawrth, ac mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl bapurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcsu a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn siec o £50 yr un.** Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!

AR DRAWS

- 1 Nofel i blant gan Emily Huws am fywyd merch y mae ei mam yn brwydro dros achosion gwyrdd (3)
- 4 Addasiad Myrddin ap Dafydd o lyfr i blant bach am byped a ddaeth yn fyw (7)
- 7 Cyfenw awdur y ddrama *Tyner yw'r Lleud Heno* (5)
- 8 Ffuglen fyrlymus mewn tair dinas gan Jon Gower (4, 1, 4)
- 9 Nofel wedi'i lleoli ym Mhen Llŷn gan Alun Jones, AC... *Clywodd Sŵn y Môr* (3)
- 10 Enw cyntaf awdur yr hunangofiant *Lluch* (5)
- 14 Ail nofel Gymraeg Catrin Dafydd (1, 7, 5)
- 19 Nofel gan Meinir Pierce Jones am hen gartref sy'n llawn cyfrinachau (4, 3, 2, 4)
- 21 a 22 ar draws, a 23 i lawr
Clasur o nofel gan Caradog Prichard (2, 3, 3, 5)
- 26 Cyfrol o gerddi gan Dafydd Wyn Jones, Bro Ddyfi (9)
- 27 Dau air cyntaf hunangofiant Trebor Edwards (2, 3)
- 28 a 29
Nofel gan Sian Melangell Dafydd a enillodd Fedal Ryddiaith 2009 (1, 6, 3)

I LAWR

- 2 ... fy Arglwydd, cyfrol gan Gwynn Williams am ganolbwynt y neges Gristnogol (5)
- 3 Enw iawn Yogi sydd wedi cyhoeddi ei hunangofiant dirdynol (5)
- 4 *Pedwar* ... *Pinc ar Tei yn yr Inc*, cyfrol gan Myrddin ap Dafydd (4)
- 5 Casgliad o straeon, cerddi a llen meicro gan Manon Rhys (6, 3)
- 6 Cyfrol iasoeu gan Dyfed Edwards, ... *a Storiâu Eraill* (5)
- 11 Nofel gan Gareth F. Williams, ... *Jynychyn - y ddynes yn yr haul* (4)
- 12 Un o glasuon T. Llew Jones am anturiaethau Twm Sion Cati, ... *o'r Diwedd* (4)
- 13 Enw cyntaf awdur y nofel Mr Blaid (4)

15 Enw sarff mewn llyfr gan Gwawr Maelor yn y gyfres *Tipyn o Gês* (4, 5)

16 Casgliad o gerddi Margaret Rees Owen, *Cerddi* ... *-y-cwrt* (4)

17 Enw awdur *Cario'r Ddraig - Stori El Bandito* (4)

18 Rhag pob ... , cofiant Gwynfor Evans gan Rhys Evans (4)

20 Cyfrol gan John Davies a Marian Delyth, ... *-y 100 Lle i'w Gweld yn Manw* (5)

23 gweler 21 ar draws

24 Cyfenw awdur gwreiddiol *Y Bachgen Mewn Pjamas* (5)

25 ... *Credur - Hunangofiant Meddyg* gan Joshua Gerwyn Elias (4)

ENW

CYFEIRIAD

ENW'R PAPUR BRO CLONC

Antonwch y croesair at: Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2010. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.

Cornel y Plant

I blant dan 8 oed



Dôl-Mebyd,
Pencarreg

Annwyl blant, sut ydych chi gyd? Mae'n braf gen i ddweud fy mod i newydd ddysgu coginio pancws! Bu Joni Jacôs a mi yn brysur iawn am oriau yn crafu'r cacs oddi ar y to. Ond ar ôl llawer iawn o ymarfer fe wellodd pethau ac fe gawsom lond platiad o bancws blasus iawn. MMM! Gobeithio eich bod chi wedi cael cyfle i flasau rhai hefyd.

Roedd gwaith lliwio'r mis hwn yn arbennig unwaith eto a braf oedd gweld rhai newydd yn rhoi cynnig arni. Mae clod mawr yn mynd i Owen Heath a Iestyn Owens o Lambed, Betsan Mai o Landysul, Charlie Butcher o Gaerdydd, Emily Roach a Heledd Jenkins o Lanwnnen. Ond yn dod i'r brig y mis hwn am waith arbennig o daclus mae Iestyn Evans, Courtlands, Llanybydder. Llongyfarchiadau mawr iawn i


chi gyd a chofiwch fynd ati i liwio llun y mis hwn a'i ddanfôn ataf erbyn dydd Llun, Mawrth 22ain.

Hwyl am y tro,



Enillydd
y mis!

Iestyn
Evans



Enw:

Cyfeiriad:



Recycling Ltd



Angen Sgip?
**Diwydiannol, Masnachol
 neu i'r cartref.**
Sgip i bob pwrpas
**Rhowch alwad i ni
 ar 01570 421421**

Ffordd Tregaron, Llambled, Ceredigion, SA48 8LT

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
 Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
 Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS
 Beca Hands BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sier o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.

**Gorsaf
Brawf
MOT**

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

Cymdeithas Edward Llwyd

Ar fore hyfryd, ddydd Sadwrn y 6ed o Chwefror roedd 27 o aelodau Cymdeithas Edward Llwyd wedi cyfarfod am 10.30 y bore, ger Eglwys Llanwenog i ddechrau taith o amgylch gwaeld Plwyf Llanwenog dan arweiniad Ieuan Roberts. Roedd nifer o'r aelodau yn gwybod am yr enw oherwydd hynodrwydd y Clwb Ffermwyr Ifanc a brid defaid Llanwenog.

Cyn mynd i mewn i'r Eglwys cafwyd cyflwyniad am ei gorffennol – cafodd ei sefydlu ddiwedd y 7fed ganrif gan y Santes Gwenog gyda'r adeilad presennol yn deillio o'r 13eg ganrif. Codwyd y tŵr gan Syr Rhys ap Thomas i ddathlu buddugoliaeth Harri Tudur ym Mrwydr Bosworth yn 1485. Roedd pawb wedi eu cyfareddu gan y nenfwd crwn sydd wedi ei rannu yn sgwariau gan y tylathau derw a'r arysgrif o'r Deg Gorchymyn a'r Credo yn Gymraeg sydd wedi eu darganfod ar y mur gogleddol. Tynnwyd sylw at y bedyddfaen Normanaidd a'r cerflun cyntefig o'r Croesholiad y tu ôl i'r allor, ond yn bennaf oll at y gwaith pren derw cerfiedig yn y sgrin ac ar bennau'r meinciau, gwaith Josef Reubens, ffoadur o wlad Belg yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a'r Milwriad H. Davies-Evans o Blas Y Dolau.

Cyn gadael y fynwent gwelwyd copi o Garreg Fawr Crugywhil gyda'r arysgrif Lladin ac Ogam arni yn cofnodi man claddu Tringad ap Maelan. Mae'r garreg wreiddiol sy'n naw troedfedd o hyd yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd a chredir ei bod yn tarddu o'r 5ed ganrif. Gwelwyd hefyd y goeden 'cas gan fwnci' a dwy o goed bach sydd wedi egino oddi dani.

Sefydlwyd Ysgol Llanwenog yn 1867 fel Ysgol Eglwysig ac mae bellach yn llewyrchus iawn. Ar ei mur mae cerflun mewn llechen o EJ Williams a'i frawd, gwaith Dennis Jones. Soniwyd am bwysigrwydd EJ Williams yn datblygu technoleg i orchfygu llongau tanfor yr Almaenwyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Wrth gerdded ymlaen ger Tŷ Cam soniwyd am Gaer Faes lle bu brwydr Llanwenog yn y flwyddyn 982. Yno gorchfygodd y Cymry naill ai'r Daniaid neu'r Saeson a soniwyd am y frwydr yn Llyfr Coch Hergest. Trueni na fu i Gymru orchfygu'r Saeson ar y maes rygbi ddiwedd y prynhawn hwnnw! Ger Llechwedd nodwyd mai yno mae cartref y chwaraewraig golff broffesiynol, Rhian Wyn Thomas.

Dechreuwyd achos yr Annibynwyr ym Mrynteg yn 1838 fel ymgais lwyddiannus i roi diwedd ar yr arfer o gicio'r bêl droed, y cnapan, ar y Sul pan fyddai hyd at dair mil o drigolion y plwyf yn cymryd rhan. Tynnwyd sylw at un neu ddwy o ddefaid Llanwenog yng nghaeau Bwlch Mawr. Yn Rhuddlan soniwyd am Lys Pryderi yn y Mabinogi, ychydig uwch ein pennau.

Cawsom wahoddiad gwresog gan drigolion Highmead i fynd o amgylch y plas ac i weld y grisau mawreddog yn arbennig. Manteisiwyd ar y lleoliad hyfryd i gael ein cinio ar y lawnt.

Roedd Ieuan wedi bwriadu cerdded ymlaen i Lanybydder a chymryd y llwybr cyhoeddus o Gaedabowen i Fronwen, i wneud peth naturiaetha. Ond nid oedd cyflwr y llwybr yn caniatáu ac felly bu rhaid cwtogi'r daith a dychwelyd i Lanwenog heibio'r Cefn Rhuddlannau. Ond cawsom ein gwobrwyo trwy weld pedwar blodyn Llygad Ebrill wedi agor yn haul mis bach a hynny'n dangos fod y gwanwyn ar y ffordd. Diwrnod hyfryd iawn.

Ieuan Roberts



Clwb Cerdded Plwyf Pencarreg

Daeth un ar ddeg i gerdded ar fore heulog dydd San Steffan gyda Mr Eric Williams yn arwain.

Cawsom ein tywys drwy'r eira a'r rhew tuag at Graig Twrch ar ffin Ceredigion a Sir Gâr er mai yn Sir Gâr y bu'r rhan fwyaf o'r daith.

Parcio ein ceir ger hen dafarn yr Halfway, hen dafarn y porthmyn fwy na thebyg gan ei bod gerllaw'r Sarn Helen. Brawd a chwaer oedd y rhai diwethaf i'w chadw tua chanol 40au'r ganrif ddiwethaf.

Cerdded i gopa Esgair Fraith (uchder 415m) a gweld adfeilion y garn a godwyd tua 3,000 o flynyddoedd yn ôl a chael golygfa wych o Landed a Dyffryn Teifi.

Cerdded draw i ymyl y Graig a chael golygfa wych nawr o Gwm Twrch, oddi tanom a gweld Capel Saron, Craig y Fran, Taldre, Buarth yr Oen, Sychnant, Tynewydd, Maesyfelin, Bryngwyn, Glanyreryr, Tycerrig, Nantllyn a hen ysgol Blaencothi. Ymlaen am greigiau anferth Banc Tyhen sydd yn edrych fel castell a gweld prydferthwch Ceredigion, Penuwch, Bethania ac adeilad dŵr Tynant.

Dringo ychydig mwy tuag at Brynmawr, y man uchaf ar y daith a chwilio am ychydig o gysgod rhag y gwynt i gael cinio. Gweld copaon Preseli (38 milltir), Pen y Fan (28 milltir) a Phumlumon (23 milltir).

Cyrraedd ffin Ceredigion a cherdded trwy goedwig Clywedog am Lyn y Gwaith, hwnnw wedi rhewi drosto. Adeiladwyd y llyn yn 1843 i gael cronfa ddŵr ar gyfer mwyngloddiau arian a phlwm Llanfair Clydogau. Dringo nôl dros y Garn Fawr, cael lluniau da â'r llyn yn y cefndir.

Yna, ymweld cyn diwedd y daith â hen bentref neu hen ffermdai Esgair Fraith. Gwyddom yn bendant yn ôl Cyfrifiad plwyf Cynwyl Gaeo fod teulu John Jones o Landdewi Brefi yn byw yno rhwng 1851 a 1871 ac mai gwehydd ydoedd yn ôl ei alwedigaeth.

Wedi cerdded tua wyth milltir aethom yn ôl am dafarn yr Halfway a phawb yn awchu am ychydig ddiod. Adref wedyn heibio Carreg y Bwci a chael cip olwg ar Garreg Hirfaen yn yr eira ar y dde. Diolch i Eric am daith ddiddorol a golygfeydd arbennig a'r cyfan ar stepen y drws i ddarllenwyr Clonc.



THEATR, CERDD A'R CYFRYNGAU - COLEG PRIFYSGOL Y DRINDOD

yn cyflwyno

HEB EI FAL...

sioe gerdd gan Ceri Elen ac Eilir Owen Griffiths

Rydd y sioc yn ymweld â'r canolfannau canlynol:

Mawrth 22/23	Neuadd Dwyfor, Pwllheli am	7:30 y.h. £7.50 / £6 cons. (01758 70 40 88)
Mawrth 24/25	Theatr Colwyn, Bae Colwyn	7:30 y.h. £8 / £6 (01492 53 26 68)
Mawrth 27	Theatr Taliesin, Abertawe	8:00 y.h. £8 / £6 (01970 60 20 60)
Mawrth 29/30	Stiwedio Weston, CMC Bae Caerdydd	8:00 y.h. £8 - £12 (08700 40 20 00)

Cynwys yn anadde i blant ifanc

Cydweithio dros Geredigion.



- ✓ £40 miliwn i Fronglais ac atal cynllun is-raddio ysbytai
- ✓ Buddsoddiad ym Mhrifysgol Llanbed
- ✓ Cynllun newydd i helpu pobl ifanc i ffermio

Mae pobl yn sylweddoli y gwahaniaeth gall **Aelod effeithiol fel Elin Jones** ei gyflawni.

Meddyliwch beth ellid ei gyflawni gyda **llais cryf ac annibynol arall fel Penri James** yn rhan o dîm unedig dros Geredigion.

Os am drefnu pleidlais bost, ffoniwch ni ar 01970 617 492

Plaid Cymru. Cyflawni dros Geredigion. Delivering for Ceredigion.

Mwydwyd gan Arthur Dafydd a Penri James. 6 dau a 32 hysg y Yng. Aberystwyth, 31/25/24